CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND



Gwybodaeth a Dysgu

# O gymdogion i gymdogaeth

Dysgu sut i hybu balchder mewn lle

Awduron: Temoor Iqbal a Julia Parnaby

Tachwedd 2022

# Contents

**Cyflwyniad** **3**

1. Grymuso pobl i ddylunio a siapio lle maent yn byw 5
2. Gwella a diogelu mwynderau lleol 11
3. Gwneud i'r amgylchedd lleol deimlo'n ddiogel ac edrych yn ddeniadol 16
4. Cefnogi lleoliadau cymunedol i ffynnu a chynnig amrywiaeth o weithgareddau 20
5. Creu cyfleoedd i bobl gyfranogi a meithrin cysylltiadau cymunedol ehangach 24
6. Adfywio ac ail-ddychmygu canol trefi a'r stryd fawr 31
7. Adfer a defnyddio adeiladau treftadaeth i wella cysylltiad pobl â lle, teulu a hanes 36
8. Harneisio diwylliant i ddod â phobl at ei gilydd 40

**Casgliad** **46**

# Cyflwyniad

Un o'r penawdau polisi allweddol o bapur gwyn 2022 Llywodraeth y DU, *Hybu Ffyniant Bro yn y Deyrnas Unedig*[1] yw "adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn", gyda'r nod o godi balchder mewn lle ym mhob rhan o'r DU erbyn 2030.

Mae llywodraethau datganoledig ledled y DU hefyd yn edrych ar ystod o strategaethau i wneud eu cymunedau yn lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt, trwy ddulliau a fydd yn hybu balchder dinesig. Mae'r rhain yn cynnwys: cymdogaethau 20 munud yn yr Alban, lle mae gwasanaethau hanfodol ar gael o fewn pellter cerdded i unrhyw gartref; bwriad Llywodraeth Cymru yw gwella atyniad a bioamrywiaeth ardaloedd lleol; gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn rhoi ffocws ar y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth adeiledig, hamdden awyr agored a gweithgareddau diwylliannol.

Er mwyn cyflawni'r nod DU gyfan a sicrhau bod mesurau rhanbarthol yn helpu pobl i deimlo'n falch o ble maen nhw'n byw, mae angen dealltwriaeth gliriach arnom o ba ffactorau sy'n helpu i feithrin balchder yn eu lle a sut mae'r ffactorau hynny'n cysylltu â'r syniad o hybu ffyniant bro. A ellir meithrin balchder yn fwriadol? Pa weithgareddau sydd fwyaf effeithiol? Ble dylen ni ddechrau?[2]

cysylltiad ag ymdeimlad o berthyn cymunedol a chysylltiadau rhyngbersonol, y cyfleusterau a'r gweithgareddau sydd ar gael mewn lle a sut y cânt eu defnyddio, a sut mae ardal yn edrych ac yn teimlo. Ond nid yw hyn i ddweud bod balchder yn cyfateb i ffyniant economaidd; mae rhai o'r ardaloedd sydd â'r ymdeimlad mwyaf datblygedig o falchder ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig.[3]

Yn unol â hyn, mae peth ymchwil hefyd yn awgrymu bod y ffactorau sy'n rhoi ymdeimlad o ymlyniad i bobl at eu cymunedau yn weddol debyg o le i le: argaeledd mannau i gyfarfod; yr ymdeimlad bod pobl yn poeni am ei gilydd; pa mor groesawgar yw'r gymuned i wahanol fathau o bobl; a pha mor ddeniadol yw'r ardal.[4]

Yn amlwg, mae lle i gredu nad yw'r cysylltiad rhwng balchder a hybu ffyniant bro yn un economaidd yn unig. Yn hytrach, mae'n ymwneud â nod ehangach hybu ffyniant bro o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy ddarparu cyfleoedd,[5] er enghraifft i gymdeithasu, i gael llais mewn gwneud penderfyniadau lleol, neu i wneud gwelliannau ffisegol i gymdogaeth. Mae'r rhain yn gyfleoedd a allai fod yn bresennol neu'n brin, ac y gellid eu gwella, mewn unrhyw ardal.

Mae isadeiledd cymdeithasol yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu'r cyfleoedd hyn. Mae'r cymdeithasegydd Eric Klinenberg yn diffinio hyn fel un sy'n cynnwys nid yn unig seilwaith sylfaenol fel ffyrdd a chyfleustodau, ond hefyd mannau awyr agored sy'n dod â phobl i mewn i'r parth cyhoeddus, sefydliadau cymunedol sy'n caniatáu i bobl ddod at ei gilydd, a 'thrydydd gofodau' lle gall pobl aros a lle maent eisiau aros.[6] Mae isadeiledd cryf o'r math hwn yn helpu pobl i greu cysylltiadau trwy hwyluso "rhyngweithio rheolaidd", dadleua Klinenberg, gan nodi pan fydd pobl yn cael profiad o hyn trwy bethau y maent yn eu mwynhau, "mae'n anochel y bydd perthnasoedd – hyd yn oed ar draws llinellau ethnig neu wleidyddol – yn tyfu".[7]

Felly, gallwn ddweud bod balchder mewn lle yn ymwneud â'r mannau ffisegol mewn cymuned a'r gweithgareddau sy'n digwydd ynddynt. O ran gofodau, gellir meithrin balchder drwy ddarparu'r lleoliadau hynny, sut maent yn edrych ac yn teimlo, a'u gweld yn cael gofal a gwellhad gan drigolion ac awdurdodau.[8] Ac o ran gweithgareddau, gellir annog balchder trwy gael pethau i'w gwneud, cyfleoedd i gymryd rhan, a llais yn y penderfyniadau a wneir am y gymuned ac ar ei chyfer.

Trwy elusennau a grwpiau cymunedol ledled y wlad, mae arian y Loteri Genedlaethol yn darparu llawer o'r cyfleusterau a'r cyfleoedd hyn. Mewn blwyddyn arferol, mae 42% o ddeiliaid grantiau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn dweud wrthym fod gan bobl fwy o falchder a pherthyn yn lleol oherwydd y gwasanaethau neu'r gweithgareddau rydym yn eu cefnogi i'w darparu.[9]

Yn yr adroddiad hwn rydym yn rhannu enghreifftiau ymarferol a rhai o'r dysgu allweddol o'r gwaith hwn, gan archwilio wyth ffordd y gall unrhyw un sy'n ceisio hybu balchder mewn lle harneisio awgrymiadau a mewnwelediadau gan fudiadau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol.



Newquay Community Orchard

# 1. Grymuso pobl i ddylunio a siapio lle maent yn byw

## Pam?

Gall gwelliannau allanol i ardal fagu balchder, ond mae grymuso cymunedau – rheoli asedau lleol a phenderfyniadau am ardal – yn ffactor allweddol hefyd. Mae Cronfa Perchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y DU[10] yn cydnabod hyn, gyda'r nod o "rymuso pobl leol, gan adfer eu balchder yn y mannau lle maen nhw'n byw" trwy ariannu cymunedau i fod yn gyfrifol am rannau o isadeiledd eu cymdogaeth.

Yn yr un modd, bu rhaglen Stronger Things New Local yn 2022[11] dynnu sylw at y cysylltiad rhwng faint o lais sydd gan bobl dros benderfyniadau sy'n effeithio arnynt a pha mor falch y maent yn teimlo am eu cymuned. Mae ein cyllid yn helpu i hwyluso hyn, gydag 16% o'n deiliaid grant yn dweud bod eu gwaith yn golygu bod pobl yn teimlo mwy o berchnogaeth a rheolaeth dros benderfyniadau lleol.

## Sut?

### Helpwch drigolion i wireddu eu syniadau ar gyfer gweithgareddau cymunedol

Mae gweithgareddau cymunedol wrth galon profiad pobl o ble maen nhw'n byw, boed hynny'n ymwneud ag isadeiledd cymdeithasol fel parciau a mannau gwyrdd, neu ryngweithio â'i gilydd ar draws rhaniadau cymdeithasol. Mae'r sector gwirfoddol a chymunedol yn gwneud gwaith gwych yn ystyried anghenion a dewisiadau lleol wrth benderfynu pa weithgareddau i'w cynnig, ond mae perygl y gallai'r ymagwedd hon ddal i gyrraedd is-set bach o unigolion sy'n ymgysylltu.

Ym Mwrdeistref Barking yn Llundain a Dagenham, fe ariannom Participatory City i weddnewid y broses, gan roi'r adnoddau, y gefnogaeth a'r isadeiledd i drigolion weld eu syniadau eu hunain yn cael eu gwireddu trwy raglen Every One Every Day. Gyda ffocws ar gyfranogiad, mae'r ymagwedd hon yn golygu y gall y rhai heb yr amser rhydd, yr egni neu'r cysylltiadau i sefydlu elusen neu wneud cais am arian ddod yn arweinwyr cymunedol gweithredol o hyd.

Mae gan y mudiad warws a phum siop y gall trigolion ymweld â nhw i drafod eu diddordebau a'u syniadau gyda staff, sydd wedyn yn gweithio gyda nhw i sefydlu eu gweithgareddau. Hyd yn hyn, mae dros 6,000 o bobl wedi cymryd rhan, gyda 146 o brosiectau gan gynnwys caffis cymunedol, sesiynau adrodd straeon, a llawer mwy. Mae hyn wedi gwella teimladau cadarnhaol am y fwrdeistref yn uniongyrchol, gyda chyfranogwyr ar gyfartaledd yn rhoi 8/10 i'w hymdeimlad cynyddol o falchder ar ôl y ddwy flynedd gyntaf.[12]

Cymerodd prosiect Coffeeworks grŵp o 12 o breswylwyr heb unrhyw brofiad blaenorol, eu haddysgu sut i wneud coffi a rhedeg busnes, ac yna eu rhoi caffi cymunedol yn eu gofal. Roedd Every One Every Day yn gofalu am bethau ymarferol fel yswiriant, caniatâd cynllunio a gosod y gofod, fel bod y cyfranogwyr yn gallu canolbwyntio ar redeg y caffi ei hun. "Mae'n beth mor unigryw," dywedodd un preswylydd. "Pan rwy'n gweini'r cwsmeriaid, rwy'n dod i adnabod fy nghymdogion. Mae wir yn gwneud i chi deimlo eich bod yn rhan o gymuned."

## Pwyntiau Dysgu

- Ymagwedd gyffredin o gynnwys preswylwyr yw cael mudiadau i gynnig syniadau, gyda phobl wedyn yn pleidleisio arnynt i benderfynu pwy sy'n cael ariannu. Efallai na fydd hyn yn briodol ym mhob achos.
    - Dywedodd un deiliad grant Ageing Better y byddai'n afrealistig disgwyl i aelodau'r cyhoedd "wahaniaethu rhwng buddion gwasanaeth profedigaeth neu brosiect dementia" yn y math hwn o broses.[13]
    - Gallai grwpiau sy'n darparu gwasanaethau hanfodol deimlo'n anghyfforddus ynghylch gorfod dylanwadu ar eu cymdogion i bleidleisio drostynt dros wasanaethau eraill sydd yr un mor hanfodol
- Mae'n debygol y byddai'r ymagwedd hon yn gweithio'n well ar gyfer gweithgareddau cyfranogol hwyliog, ond cofiwch roi digon o amser a gwybodaeth i bobl bwyso a mesur manteision ac anfanteision pob syniad. Ystyriwch osod rheolau ynghylch y fformat a'r amser a neilltuwyd, fel nad oes gan y rhai sydd â'r sgiliau cyflwyno mwyaf slic mantais annheg.


Portglenone Enterprise Group

## Darparwch ariannu fel y gall cymunedau benderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain

Y dull traddodiadol o rymuso cymunedau yw ymgynghori â phobl ynghylch pa weithgareddau ac isadeiledd y maent am eu gweld yn eu hardal, ac yna ariannu prosiectau penodol i fodloni'r blaenoriaethau hynny. Fodd bynnag, rydym wedi canfod bod ymddiried mewn cymunedau i ddyrannu arian yn uniongyrchol eu hunain, neu gyfrannu at ddylunio a siapio eu hardal leol, yn gwneud gwahaniaeth sylweddol, o ran canfyddiad y broses ac i ba mor effeithiol y gellir targedu ariannu.

Trwy raglenni Big Local ac Invest Local, rydym wedi rhoi o leiaf £1 miliwn yr un i 150 o gymunedau yn Lloegr ac 13 yng Nghymru i'w wario sut bynnag y dymunant dros 10-15 mlynedd. Un o bedwar canlyniad datganedig Big Local yw "bydd pobl yn teimlo bod eu hardal yn lle gwell fyth i fyw", gan gysylltu'r rhaglen â balchder lleol.

Yn Telford, dewisodd Brookside Big Local ganolbwyntio ar fentrau sy'n adeiladu ysbryd cymunedol.[14] Penderfynodd trigolion ddefnyddio'r ariannu i agor canolfan gymunedol newydd. Gan nodi bod pobl sy'n newydd i'r ardal a oedd yn siarad Saesneg fel ail iaith (ESL) weithiau'n teimlo'n ynysig, yn enwedig wrth aros i ymuno â chyrsiau iaith a oedd yn orlawn, fe ddefnyddion nhw ariannu Big Local i ddechrau grŵp croeso. Mae hwn yn darparu gwybodaeth am yr ardal a chymorth gyda Saesneg sgyrsiol, gan helpu trigolion newydd i fagu hyder.[15]

Roedd y model ariannu'n golygu bod gan bobl leol yr adnoddau i gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â phroblem a welsant, gan ddangos yr hyblygrwydd a'r effeithlonrwydd y gall rheolaeth gymunedol eu cynnig ar gyllidebau.

Gall gwneud penderfyniadau a arweinir gan breswylwyr hefyd fod yn ffordd ddefnyddiol o drosoli symiau bach o ariannu i gael effaith sylweddol, oherwydd gall gwybodaeth a blaenoriaethau lleol helpu i fynd at wraidd materion i dynnu sylw at gamau gweithredu sydd eu hangen ar raddfa fwy.

Yn Northumberland, roedd trigolion yn y pentrefi a gwmpesir gan bartneriaeth CELL Big Local yn pryderu am faint o wastraff a gesglir ar draeth Bae Lynemouth, a dewison nhw fuddsoddi £500 mewn digwyddiad glanhau. Yn y digwyddiad, edrychodd pobl i mewn i ffynhonnell y gwastraff a sylwi ei fod yn dod yn rhannol o glogwyn ger hen safle glofa; wrth i'r clogwyn erydu gadawodd y traeth wedi'i orchuddio â sbwriel a hen beiriannau, gan godi pryderon am y swm o wastraff, a allai fod yn beryglus, sy'n dal i gael ei gladdu yn yr ardal.

Roedd hyn yn ddigon o dystiolaeth i annog y cyngor i gynnal ymchwiliadau agosach, a arweiniodd at gynlluniau mawr i gloddio 200,000 tunnell o ddeunydd o'r clogwyni. Mae hyn bellach wedi tyfu i fod yn brosiect gwerth £7.5 mili,wn[16] a fydd yn glanhau'r gwastraff o'r tir a gloddiwyd cyn ei ddisodli, gan ddiogelu'r amgylchedd trwy ymdrechion trigolion lleol a oedd eisiau gwneud eu traeth yn lle glanach y gallent ymfalchïo ynddo.[17]

> **Mae penderfyniadau a arweinir gan drigolion yn gallu dylanwadu ar symiau bach o gyllid er mwyn cyflawni effaith arwyddocaol**

## Pwyntiau Dysgu

- Peidiwch ag ymgynghori â phobl yn unig; rhowch lais ystyrlon iddynt ynghylch sut y caiff arian ei wario'n lleol, gan fod hyn yn meithrin hunanwerth a hyder, a gallai wneud gwasanaethau'n fwy perthnasol, effeithiol, fforddiadwy a chynaliadwy.[18]
- Sicrhewch fod gan y gymuned gyfan lais. Efallai y bydd angen cyflogi gweithwyr allgymorth i sicrhau bod y rhai o gymunedau lleiafrifol neu rannau difreintiedig o'r ardal yn cael cyfle teg i ddweud eu dweud.
- Os yw'ch tîm i gyd yn wyn neu'n ddosbarth canol, gwnewch ymdrech ar y cyd i amrywiaethu. Mae'n bwysig bod yr holl bobl leol yn gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn eich staff a'ch gwirfoddolwyr.
- Ystyriwch dalu pobl am eu cyfraniad. Gall fod yn afrealistig disgwyl i breswylwyr gymryd gwaith a rhoi o'u hamser heb gefnogaeth na thâl.
- Meddyliwch sut i reoli gwahanol safbwyntiau ac anghytundebau. Gall lleoliadau niwtral a hwyluso annibynnol helpu i roi llais i bawb, galluogi mwy o amrywiaeth barn, a datgloi ffyrdd adeiladol o anghytuno.
- Gall yr ymagwedd uchod hefyd arafu pethau, nad yw o reidrwydd yn beth drwg. Mae'n werth cymryd amser i feithrin perthnasoedd cryfach, ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod y rhain yn gysylltiedig â theimladau cadarnhaol o berthyn, perchnogaeth a balchder.[19]
- Peidiwch bob amser ag anelu at gonsensws; y nod yw cael y rhai sydd â safbwyntiau gwrthgyferbyniol i glywed a deall ei gilydd, ond mae'r un mor bwysig peidio â gadael i'r lleisiau cryfaf bennu pethau a gogwyddo'r canlyniadau cyffredinol. Mae Big Local yn cynnig arweiniad ar sut i ymdrin â gwahaniaethau barn a gwrthdaro, yn ogystal â gwrthdaro buddiannau, uniondeb a gonestrwydd.[20]
- Cyfathrebwch yn blwmp ac yn blaen am yr hyn sy'n bosibl a'r hyn nad yw'n bosibl. Mae rhai o'n rhaglenni ariannu wedi canfod bod y natur agored hon yn allweddol i feithrin dealltwriaeth a deialog adeiladol, gan helpu trigolion i ddeall mwy am sut mae awdurdodau lleol yn gweithio, pam mae rhai pethau'n cymryd amser, a pham efallai nad yw eraill yn bosibl. Yn ei dro, gall hyn gryfhau'r berthynas rhwng trigolion a swyddogion.[21]
- Mae trefnu gweithdai cymunedol fel Gwersylloedd Cymunedol yr Eden Project yn helpu i wneud y gorau o amser gwirfoddolwyr a chryfhau eu sgiliau arwain.[22]
- Gallai canolbwyntio'n rhy gyfyng ar waith a arweinir gan breswylwyr fod yn annymunol i rai noddwyr traddodiadol mudiadau cymunedol. Teimlai rhai Ardaloedd Big Local eu bod wedi colli allan ar arian cyfatebol posibl a chefnogaeth o ganlyniad i hyn,[23] er bod eraill wedi canfod bod rhwyddineb cael arian cyfatebol yn un o bethau cadarnhaol y rhaglen.[24]

## Rhowch lais i bobl ifanc yn y modd y caiff gwasanaethau eu rhedeg

Gellir meithrin balchder yn ei le yn gyflym, trwy fuddugoliaethau cyflym fel glanhau strydoedd a digwyddiadau cymunedol. Ond er mwyn creu ymdeimlad parhaol, cadarn o falchder, rhaid canolbwyntio ar y genhedlaeth nesaf. Mae angen ymgysylltu â phobl ifanc fel eu bod yn tyfu i fyny yn teimlo fel aelodau grymus, uchel eu parch o gymuned y maent wedi helpu i'w siapio.

Mae Our Bright Future wedi grymuso pobl ifanc 11-24 oed i arwain newid amgylcheddol. Cymerodd tua dwy ran o dair (64%) o gyfranogwyr ran mewn gweithgareddau a roddodd lais iddynt wrth ddylanwadu ar bolisi ac arfer lleol, a oedd hefyd yn cryfhau eu rhyngweithio ag eraill ac yn rhoi sgiliau newydd iddynt reoli heriau.

Dywedodd tua thri chwarter (74%) fod y rhaglen wedi cynyddu eu hymdeimlad o rymuso, gyda 42% yn awyddus i barhau i ddylanwadu ar benderfyniadau lleol am yr amgylchedd a 21% yn bwriadu gwirfoddoli ar gyfer achosion ehangach yn eu cymuned. Mae hyn yn dangos sut y gall ymgysylltu a grymuso fod yn ysgogiad pwerus ar gyfer cyfranogiad parhaus, mewn ffyrdd na fyddai'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc dan sylw wedi'u hystyried yn agored iddynt o'r blaen.[25]

Bu gwerthusiad o Our Bright Future ganfod fod y ffactorau sy'n helpu pobl ifanc i deimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso yn cynnwys: gweld tystiolaeth y bydd eu lleisiau'n cael eu clywed a'u gweithredu arnynt; cael cyfleoedd i rwydweithio â phobl eraill o'r un anian; cael y cyfle i gwrdd â gweithwyr proffesiynol a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau; a sgiliau a phrofiad ymarferol sy'n eu harfogi i arwain newid yn hyderus.[26]

Rydym hefyd yn darparu'r cyfleoedd hyn trwy Gronfa #iwill, gan helpu pobl ifanc i gymryd camau cymdeithasol trwy ddarparu'r hyfforddiant, offer a chyfleoedd angenrheidiol iddynt. O 2021 ymlaen, roedd 2,851 o bobl ifanc wedi cymryd rhan, gyda chyfranogwyr yn sôn eu bod yn teimlo fel rhan o gymuned ehangach drwy'r broses, a'u bod wedi dylanwadu ar wasanaethau neu fannau yn eu hardal.[27]

Ym Manceinion, ariannodd #iwill Greater Manchester Youth Network i helpu pobl ifanc ag anghenion ychwanegol i siapio darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus. Dechreuodd y prosiect trwy gefnogi cyfranogwyr i gael mynediad at a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ddiogel. Yna sefydlodd y grŵp gyfarfodydd gyda Transport for Greater Manchester, er mwyn i bobl ifanc allu rhannu ffyrdd y teimlent y gellid gwneud y rhwydwaith trafnidiaeth yn fwy hygyrch iddynt hwy a'u cyfoedion.[28]

Er y gallai'r newidiadau y dylanwadwyd arnynt gymryd rhai blynyddoedd i ddod i rym, roedd y bobl ifanc yn amlwg yn elwa o gael eu hymddiried a'u grymuso. Ond mae'n bwysig peidio â thybio y bydd hyn yn amlwg ym mhob achos; mae llawer o bobl ifanc yn wyliadwrus o ymdrechion i ymgysylltu â nhw. Gall recriwtio staff sydd â chefndir tebyg i'r gynulleidfa darged helpu gyda hyn, oherwydd bydd cyfranogwyr yn ei chael yn haws uniaethu â modelau rôl sy'n rhannu eu profiadau.

**Dywedodd 74%**

**o gyfranogwyr Our Bright Future bod y rhaglen wedi cynyddu eu hymdeimlad o rymusiad**

## Pwyntiau Dysgu

- Dylid harneisio'r sgiliau y mae pobl ifanc yn eu datblygu o gael llais – hyder, cyfathrebu, gwrando, gwaith tîm – i'w cefnogi i gael gwaith neu hyfforddiant.[29]
- Darparwch wahanol bwyntiau mynediad a lefelau ymgysylltu fel y gall pobl ifanc ymrwymo eu hamser mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw.[30]
- Cefnogwch bobl ifanc gyda chyngor gan oedolion y maent yn ymddiried ynddynt, fel bod gwasanaethau a gydgynlluniwyd yn cael eu llywio gan brofiad personol a phroffesiynol. Mae pobl ifanc yn dweud wrthym nad oes ganddyn nhw bob amser atebion i'r materion sy'n effeithio arnyn nhw.[31]
- Meddyliwch am ffyrdd o ymgysylltu â phobl ifanc na fyddent byth yn cael cyfle i ddweud eu dweud. Gall fod yn beryglus i rai pobl ifanc yn eu harddegau adael eu hardal cod post, ac anaml y bydd y rheini mewn ystadau y tu allan i'r canol neu ardaloedd y mae tlodi yn effeithio arnynt yn gadael eu cymdogaeth.[32]


Energy Garden

# 2. Gwella a diogelu mwynderau lleol

## Pam?

Mwynderau yw conglfeini ffisegol cymuned. Gall y gwasanaethau y maent yn eu darparu, o fwyd a thrafnidiaeth i leoedd i bobl gyfarfod, fod y gwahaniaeth rhwng ardal lewyrchus y mae pobl yn falch ohoni ac un sy'n ei chael hi'n anodd y mae pobl yn teimlo ei bod yn cael ei gadael ar ôl. Fodd bynnag, lle nad yw'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion lleol, mae risg o wreiddio anghydraddoldeb. Gall y cynnydd mewn prisiau ac – mewn rhai achosion – y gostyngiad mewn safonau wneud bywyd yn waeth i bobl,[33] gan effeithio ar eu gallu i deimlo balchder yn yr ardal.

Gyda chymorth, mae dwy brif ffordd y gall cymunedau ymateb i hyn: cymryd asedau a gwasanaethau i berchnogaeth uniongyrchol, neu adeiladu momentwm i gyflwyno achos cryf i awdurdodau bod angen gwasanaethau newydd neu well. Gallai'r cyntaf weld grwpiau cymunedol yn ffurfio i ailagor siop bentref neu dafarn gaeedig, tra gallai'r olaf weld pobl yn dod at ei gilydd i adeiladu tystiolaeth o alw am well cysylltiadau neu gyfleusterau trafnidiaeth.

Yn y naill achos neu'r llall, gall ariannu fod yn allweddol sy'n datgloi momentwm. Mewn blwyddyn arferol, mae 45% o'n deiliaid grant yn dweud bod eu grantiau'n eu helpu i wella lleoedd a gofodau lleol neu ddarparu gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag asedau a chyfleusterau cymunedol, gan gynnwys gwaith adeiladu ac adnewyddu. Ac mae 23% yn nodi bod eu gwaith yn cyfrannu at wella mynediad cymunedau i isadeiledd allweddol fel trafnidiaeth gymunedol, tra bod 5% yn gweithio i arbed amwynderau fel siopau, tafarndai a chaffis rhag cau.[34]

## Sut?

### Rhowch asedau ac isadeiledd dan reolaeth y gymuned

Mae perchnogaeth gymunedol uniongyrchol o isadeiledd lleol yn rhoi "rhan gyfartal i bobl yn ei lwyddiant a'i ddyfodol", yn ôl y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Mae hon yn agwedd bwysig ar falchder mewn lle – pan fydd pobl yn cael cyfleoedd i gymryd perchnogaeth a chynnal yr asedau hanfodol sy'n ffurfio gwead eu cymdogaethau, maent yn fwy tebygol o deimlo ymdeimlad o falchder a chyfrifoldeb.[35]

Yn Swydd Aberdeen, fe ariannom Udny Community Turbine, gan roi cynhyrchu ynni yn nwylo cymunedol pentrefi Udny Green a Pitmedden. Ar ôl blwyddyn o weithredu roedd y tyrbin wedi cynhyrchu £120,000, a thros ei oes 20 mlynedd disgwylir i hyn godi i £5 miliwn - tua £2,000 i bob trigolyn.[36] Ers hynny mae preswylwyr wedi sefydlu ymddiriedolaeth i ddefnyddio rhywfaint o'r elw ar gyfer gwelliannau lleol, gan gynnwys adeilad cymunedol hygyrch a chaffi cymunedol, fel y gallant fwynhau ac ymfalchïo ym manteision eu hunangynhaliaeth.

Gall amwynderau cymdeithasol hefyd elwa o berchnogaeth gymunedol. Mae tafarndai, er enghraifft, yn fwy na dim ond lleoedd i fwyta ac yfed; maent yn aml ynghlwm yn annatod ag ymdeimlad pobl o hunaniaeth leol, ac yn gwasanaethu fel y prif leoliadau cymdeithasol ar gyfer trefi, pentrefi a maestrefi ledled y wlad. Rhwng 2008 a 2018, caeodd tua chwarter tafarndai'r DU[37] ac, fel y noda Sefydliad Bennett, "anaml y cânt eu disodli gan amwynder sy'n chwarae rhan debyg ar draws y gymuned".[38]

Mae perchnogaeth gymunedol yn cynnig ateb yma, gyda gwaith ymchwil yn canfod bod 68% o dafarndai cymunedol yn darparu mannau cyfarfod, 33% yn codi arian at elusennau lleol neu achosion da, 35% yn ganolfan ar gyfer gweithgareddau corfforol fel cerdded neu feicio, 58% yn dod o hyd i fwyd lleol, mae gan 21% ardd gymunedol, ac mae 23% yn rhedeg clybiau prydau fforddiadwy. Maent hefyd yn cyflogi 13 o bobl yr un ar gyfartaledd, ac yn cynnig cyfleoedd hyfforddi i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad swyddi.[39] Mae ymgyrchoedd llwyddiannus i ddod â thafarndai dan reolaeth gymunedol yn rhoi ymdeimlad o falchder a grym, fel y mae perchnogaeth barhaus ased allweddol i'r ardal.[40]

Yn Sir Gaerfyrddin, fe ariannom dafarn Cwmdu Inn i adnewyddu ei chegin, gan helpu'r dafarn – sydd hefyd yn gwasanaethu fel siop a swyddfa bost i'r pentref – i barhau i redeg digwyddiadau a gweithredu fel hwb cymdeithasol. Yn Swydd Amwythig, fe ariannom Neenton Community Society i gynnal gwaith ymgynghori a arweiniodd at gymryd rheolaeth o dafarn adfeiliedig The Pheasant. Ers agor, mae wedi cyflogi 50 o bobl ifanc ac yn gwasanaethu fel calon gymdeithasol y pentref. Fel yr eglurodd aelod o'r gymdeithas wrth Sefydliad Plunkett: "Doedd gennym ni ddim ysgol, dim neuadd bentref a dim siop. Rhoddodd adfer [y dafarn] ddyfodol i'r pentref."[41]

Wedi dweud hynny, mae'n bwysig bod cymunedau yn cymryd rheolaeth o asedau gyda'u llygaid yn agored. Gall y gost o adnewyddu a chynnal a chadw hen adeiladau neu adfeilion gynyddu'n gyflym, gan wthio grwpiau i ddyled pan fydd costau rhedeg yn fwy nag incwm. Roedd rhaglen More Than a Pub, a redir gan Power to Change a phartneriaid, yn annog grwpiau cymunedol i greu cynlluniau busnes yn nodi eu llwybrau i gynaliadwyedd ariannol. Roedd hyn yn lliniaru eu risg trwy ddulliau megis cynigion cyfranddaliadau cymunedol, a phartneriaethau gyda busnesau lleol fel bragdai a chyflenwyr bwyd.[42]




Bumpy

> **Pan fydd pobl yn berchen ar asedau lleol, maen nhw'n fwy tebygol o gael ymdeimlad o falchder**

## Pwyntiau Dysgu

- Er mwyn cynnal ymdeimlad o falchder, mae'n bwysig nad yw adeiladau a thir yn dod yn rhwymedigaethau. Sicrhewch fod diwydrwydd dyladwy yn cael ei gwblhau a bod gan gymunedau'r cymysgedd cywir o sgiliau a phrofiad i fod yn berchnogion llwyddiannus.
- Bydd rheolwr prosiect cyflogedig yn helpu i leddfu'r pwysau ar wirfoddolwyr a thîm y prosiect.
- Cynlluniwch ar gyfer cynaliadwyedd ariannol, ond byddwch yn ofalus ynghylch rhagamcanion ariannol rhy optimistaidd[43, 44]. Rydym wedi canfod nad yw mudiadau bob amser yn gallu gwireddu'r incwm y maent yn cynllunio ar ei gyfer. Efallai na fydd llogi ystafelloedd, y mae llawer o grwpiau'n dibynnu arno, yn cynhyrchu digon o incwm yng nghyd-destun argyfwng costau byw 2022.
- Yn ogystal â chostau adeiladu a chaffael craidd, mae pethau i'w hystyried yn cynnwys costau rhedeg a chynnal a chadw, prydlesi, ffioedd cyfreithiol a chynllunio, yswiriant, a chostau teithio.[45]
- Ail-fuddsoddwch elw mewn achosion da lleol y mae trigolion yn eu blaenoriaethu, fel bod pobl yn gweld achos ac effaith eu hamser a'u gwaith caled.
- Darparwch arian a chyngor i helpu gwneud lleoliadau yn fwy ynni-effeithlon neu defnyddiwch ynni adnewyddadwy. Mae mudiadau wedi dweud wrthym y gall hyn fod yn drawsnewidiol a "bron fel cael grant newydd bob blwyddyn", gan ei fod yn rhyddhau arian i'w wario ar ddod â'r gymuned ynghyd, yn hytrach nag ar filiau cyfleustodau.[46]




Climate Action Fund launch

## Grymuswch gymunedau i wneud yr achos dros wasanaethau hanfodol

Gall y model perchnogaeth gymunedol fod yn achubiaeth, ac eto mae rhai elfennau o isadeiledd yn rhy fawr neu'n rhy gymhleth i'w cymryd yn realistig i reolaeth uniongyrchol. Mewn ardaloedd trefol, er enghraifft, dim ond archfarchnadoedd cadwyn sydd â'r rhwydweithiau a'r arbedion maint sydd eu hangen i ddarparu'r swm o fwyd sydd ei angen ar deuluoedd lleol, am gost y gallant ei fforddio. Yn yr un modd, gall trafnidiaeth gyhoeddus gael ei darparu ar lefel gynhaliaeth gan fentrau cymunedol, ond heb fod yn rhan o'r prif rwydwaith trafnidiaeth gall ardal fynd yn ynysig yn gyflym, gan waethygu'r ymdeimlad o gael ei gadael ar ôl.

Nid yw hyn yn golygu nad oes gan gymunedau unrhyw ran i'w chwarae wrth ddod â'r gwasanaethau hyn i mewn a'u gwella. Mae'r papur gwyn hybu ffyniant bro yn cydnabod y cysylltiad rhwng balchder mewn lle a grymuso cymunedau i ddatblygu atebion i'r problemau sydd bwysicaf iddynt,[47] ac mae hyn yn parhau i fod yn wir hyd yn oed os nad yw'r atebion eu hunain yn eiddo uniongyrchol i'r gymuned.

Ym Mryste, rhoddodd trigolion Lawrence Weston hyn ar waith. Roedd diffyg cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn golygu bod pobl yn cael trafferth cyrraedd y gwaith mewn ardal gyda pherchnogaeth ceir is na'r cyfartaledd, ac roedd dros 60% o drigolion yn teimlo bod cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus â swyddi yn broblem.[48] Roedd hyn yn peryglu diweithdra cynyddol, gydag effaith negyddol uniongyrchol ar falchder lleol.

Mewn ymateb, bu grŵp Big Local yr ardal – Ambition Lawrence Weston – yn gweithio gyda chyflogwyr yn yr ardal i sefydlu bws gwennol cymunedol. Er bod hyn wedi darparu achubiaeth yn absenoldeb llwybr bws wedi'i wasanaethu'n llawn, ei gyflawniad pwysicaf oedd adeiladu tystiolaeth o'r galw a'r angen am drafnidiaeth gyhoeddus. Er bod hyn wedi darparu achubiaeth yn absenoldeb llwybr bws wedi'i wasanaethu'n llawn, ei gyflawniad pwysicaf oedd adeiladu tystiolaeth o'r galw a'r angen am drafnidiaeth gyhoeddus.[49]

Roedd y grŵp Big Local hefyd yn gwybod bod trigolion yn pryderu am fforddiadwyedd bwyd, gan nad oedd archfarchnad cost isel yn yr ardal, ac roedd 71% o'r ymatebwyr o'r farn bod cyfleusterau siopa lleol yn wael ac angen eu gwella. Mewn ymateb, defnyddiodd y grŵp ariannu Big Local i gyflogi ymgynghorydd i adeiladu tystiolaeth o'r galw, ac yna cyflwyno hyn i'w AS a Chyngor Dinas Bryste. Fe wnaeth y dystiolaeth hon argyhoeddi'r cyngor i ailystyried gwerthu safle coleg adfeiliedig i ddatblygwyr tai, ac yn 2018 agorodd cangen fawr o Lidl ar y safle yn lle hynny.[50]

> **Mae cysylltiad rhwng balchder mewn lle a grymuso cymunedau i ddatblygu datrysiadau i broblemau**

## Pwyntiau Dysgu

- Peidiwch â thybio ei bod yn hawdd defnyddio momentwm cymunedol i lunio penderfyniadau yn y sector cyhoeddus neu breifat. Yn nodweddiadol mae gan awdurdodau lleol archwaeth risg is na grwpiau preswylwyr, tra bydd cwmnïau preifat yn llai parod i redeg gwasanaethau ar golled.
- Byddwch yn amyneddgar wrth adeiladu sylfaen dystiolaeth; bu gwasanaeth bws gwennol Ambition Lawrence Weston redeg am ddwy flynedd cyn i First Bus gytuno i wasanaethu'r ardal.
- Sicrhewch fod pobl yn ymwybodol o'r genhadaeth gymdeithasol y tu ôl i fentrau.[51] Darganfu Sefydliad Plunkett mai ychydig o siopau cymunedol sy'n cynhyrchu elw o fwy na £10,000, ond mae perchnogaeth gymunedol ac ymrwymiad gwirfoddolwyr lleol yn cyfrannu at eu "parhad rhyfeddol".[52]
- Darparwch wasanaeth hyblyg, fel y gall amwynderau a redir gan y gymuned wneud y mwyaf o ffrydiau refeniw ac fel eu bod yn diwallu anghenion gwahanol.
- Sicrhewch fod gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol yn hygyrch i bobl hŷn neu anabl i helpu'r trigolion hynny i gynyddu cyswllt cymdeithasol a lleihau teimladau o unigedd, gan gyfrannu at gysylltedd cymdeithasol a pherthyn.[53]
- Anogwch wirfoddoli trwy ddarparu gwasanaeth y mae'r gymuned yn ei werthfawrogi, gydag amcanion sy'n adlewyrchu anghenion a diddordebau pobl leol. Gall hyn helpu i gynnal y gwaith a datblygu teimladau o falchder a pherthyn ymhellach.[54]



East Lothian Council

# 3. Gwneud i'r amgylchedd lleol deimlo'n ddiogel ac edrych yn ddeniadol

## Pam?

Mae sut mae ardal yn edrych ac yn teimlo wrth wraidd balchder mewn lle. Mae ymchwil wedi canfod bod strydoedd glân yn cael eu crybwyll yn rheolaidd ymhlith yr elfennau pwysicaf o wneud rhywle yn lle da i fyw, gyda dros 70% o bobl yn Lloegr yn poeni am olwg eu cymdogaeth.[55] Mae agwedd economaidd i hyn, gan fod gostyngiadau yn y gyllideb wedi lleihau gallu cynghorau i gadw ar ben materion megis fandaliaeth,[56] graffiti a sbwriel, er bod cynlluniau'r llywodraeth fel yr hwb ariannol o £9.75 miliwn i lanhau prif strydoedd[57] wedi helpu.

Mae strydoedd budr hefyd yn mynd law yn llaw â mannau gwyrdd blêr, y mae Sefydliad Bennett yn nodi sydd â chanlyniadau uniongyrchol i falchder dinesig, gan arwain at "besimistiaeth a dadrithiad".[58] Mae hyn yn gwneud mannau cyfarfod cymdeithasol hanfodol yn ddigroeso, gyda phobl yn teimlo'n llai diogel mewn mannau budr.[59] Mae ein deiliaid grant yn mynd i'r afael â hyn, gyda 16% yn cynnig gweithgareddau amgylcheddol mewn blwyddyn arferol.[60] Rydym wedi canfod bod y camau hyn yn fwy tebygol o gynyddu ymdeimlad y cyfranogwyr o falchder a pherthyn yn lleol na mathau eraill o weithgarwch.[61]

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys lefel uchel o weithredu ar yr hinsawdd, ond mae gweithgareddau cyfranogol syml megis casglu sbwriel, plannu blodau, ailgylchu ac adnewyddu mannau gwyrdd yr un mor bwysig, ac efallai hyd yn oed yn fwy pwysig pan ddaw at falchder mewn lle. Nododd ein Mynegai Ymchwil Cymunedol 'cadw'r ardal i edrych yn ddeniadol' a 'chael mynediad i fannau gwyrdd' fel dau o'r pum maes gwella pwysicaf ar gyfer cymunedau.[62]

## Sut?

### Canolbwyntiwch ar welliannau gweladwy yn unig neu fel rhan o brosiectau mwy

O ystyried y pwysigrwydd y mae pobl yn ei roi ar ba mor lân a deniadol yw ardal, mae gwelliannau yn y maes hwn yn ffordd wych o ysgogi newid amgylcheddol, economaidd a diwylliannol. Yn Lerpwl, roedd ardal Granby Four Streets yn wynebu amddifadedd a dadfeiliad o'r 1980au hyd at y 2000au, gyda strydoedd o dai a siopau gwag wedi'u gadael. I ddechrau troi ffawd yr ardal, daeth trigolion at ei gilydd i blannu blodau, gosod planwyr ac annog iorwg i dyfu ar unedau gwag.[63]

Roedd hyn yn helpu pobl i feddwl am ffyrdd eraill yr hoffent wella eu cymdogaeth, gan ennyn digon o falchder i'w cael i feddwl yn gadarnhaol am y dyfodol. Maent wedi sefydlu ymddiriedolaeth tir gymunedol, yr ydym wedi'i chefnogi drwy grantiau ar gyfer cyfathrebu, gweithdai sgiliau, cylchlythyrau a chyfieithwyr. Ers hynny mae'r ymddiriedolaeth tir wedi adnewyddu 13 o dai sydd wedi'u gwerthu neu eu rhentu am gyfraddau fforddiadwy, wedi sefydlu canolfan gymunedol gyda chaffi, ac wedi cychwyn marchnad stryd fisol. Dechreuodd hyn i gyd gydag ychydig o bobl leol yn dangos eu bod yn malio.

Yn yr un modd ag y gall gweithredoedd bach sy'n dangos balchder dyfu'n newid mawr, gall hwb i falchder lleol trwy welliannau gweladwy hefyd fod yn gyd-fudd pwysig i brosiectau amgylcheddol mwy. Fe ariannom Middlesbrough Environment City i gynnal 15 darn gwahanol o waith gweithredu hinsawdd ar draws y dref, gydag un ohonynt yn canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant a lle ar gyfer tyfu bwyd a garddio.

Roedd pobl a hyfforddwyd yn y sgiliau hyn wedyn yn eu defnyddio i drawsnewid lonydd cefn blociau tai Fictoraidd hollbresennol Middlesbrough, a ddefnyddiwyd yn flaenorol yn bennaf ar gyfer mynediad a storio biniau. Trwy blannu blodau, coed ffrwythau a gerddi llysiau, daeth y lonydd cefn yn fannau cymunedol bywiog yr oedd pobl yn falch ohonynt. Roedd rhai trigolion hŷn yn betrusgar i ddechrau oherwydd y canfyddiad blaenorol bod y lonydd cefn yn anniogel, ond roedd ychwanegu gatiau a chamerâu diogelwch yn helpu i sicrhau bod pobl o bob oed yn teimlo'n gyfforddus yn treulio amser ynddynt.

Er mwyn i brosiectau fel hyn weithio, mae angen cyfranogwyr arnoch chi. Er bod eisiau gwella'r gymdogaeth yn unig yn ddigon o ysgogiad i rai pobl, bydd eraill yn cael eu denu'n fwy gan y bondio, yr undod a'r rhyngweithio a gynigir gan gymryd rhan, felly mae'n werth hyrwyddo'r agwedd hon wrth geisio cael pobl i gymryd rhan. Mae'n debygol mai trigolion sydd eisoes yn ymwneud â gwaith amgylcheddol yw'r rhai hawsaf i ymgysylltu â nhw, ond gall ehangu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn diwrnodau gwirfoddoli cymunedol helpu. Ar gyfer hyn, mae grwpiau sy'n dod o un stryd neu floc yn tueddu i weithio'n well na'r rhai o ardal ehangach.[64]

Wrth gwrs, efallai nad oes gan rai ardaloedd fannau cyhoeddus amlwg i ddechrau plannu a gwneud gwelliannau. Lle mae gan ardal lawer o adeiladau adfeiliedig a lleiniau gwag, efallai y bydd cyfle i greu'r hyn y mae Groundwork yn ei alw'n 'ofodau cyfamser'.[65] Mae'r rhain yn ofodau sydd wedi'u clustnodi ar gyfer datblygiad yn y dyfodol, ond nad sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Yng Ngogledd Iwerddon, mae Groundwork yn cynnal sesiynau garddio a digwyddiadau yn y gofodau, gan eu gwneud yn lleoliadau actif y gall pobl fod yn falch ohonynt, yn hytrach nag yn ddolur llygad.

**"Mae'r ffordd y mae ardal yn edrych a theimlo wrth wraidd balchder mewn lle"**


Power to Change

## Pwyntiau Dysgu

- Dylid cynnwys pobl ifanc wrth wneud gwelliannau lleol, a harneisio eu balchder yn eu cyflawniadau. Gall hyn eu troi yn eiriolwyr gweithredol dros yr ardal.[66]
- Recriwtiwch bobl ifanc i gynllunio, dylunio neu adeiladu mannau a chyfleusterau awyr agored newydd y maent yn debygol o'u defnyddio. Yn ogystal â rhoi ymdeimlad o berchnogaeth a balchder iddynt, gall hyn hefyd arwain at leihad mewn fandaliaeth.[67]
- Anogwch waith ar lefel hyperleol i roi ymdeimlad o berchnogaeth a rennir i bobl trwy deimlo'n atebol i'w cymdogion agosaf a bod yn falch o'u stryd eu hunain. Gall hyn helpu i gadw diddordeb pobl a'u troi'n eiriolwyr ar gyfer gweithredu parhaus.[68]
- Archwiliwch botensial lleoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon fel arosfannau bysiau, cynteddau adeiladau, a hyd yn oed y gofodau y tu allan i siopau. Mae gan bob un o'r rhain botensial i fod yn 'fannau bwrw ar draws rywun' lle gall pobl gyfarfod yn naturiol a sgwrsio. Gall ychwanegiadau bach sy'n annog pobl i aros yn hirach – fel mainc gyfforddus – eu helpu i ddechrau siarad a meithrin cyfeillgarwch ag eraill.[69]
- Gwellwch y mannau bwrw ar draws rywun presennol lle gallai pobl sy'n rhannu diddordebau, fel cerddwyr cŵn neu rieni plant ifanc, ymgasglu. Gall hyn droi mannau annisgwyl yn ddeoryddion naturiol ar gyfer ymddiriedaeth a chyd-gefnogaeth.[70]




Clwb Rybgi Bethesda

## Creu ymgysylltiad lleol i gefnogi prosiectau ar raddfa

Gall dod o hyd i ffyrdd o gynnwys ac ymgysylltu â'r gymuned mewn prosiectau mawr sy'n effeithio ar yr amgylchedd lleol fod yn allweddol i sicrhau bod y gweithgareddau hynny'n hybu balchder yn yr ardal. Yn Derry/Londonderry, fe ariannom Barc Ardal Drumahoe trwy raglen Space and Place.[71] Fel rhan o'r prosiect gwerth £1m bu Cyngor Dinas Derry a Chyngor Dosbarth Strabane yn gweithio gyda'r gymuned leol i benderfynu ar ddewisiadau trigolion ar gyfer y parc.

Er enghraifft, ymgynghorwyd â phlant yn Ysgol Gynradd Drumahoe ynghylch eu hanghenion chwarae a'u hoffter o offer, gan nodi eu bod eisiau offer egnïol a heriol mewn ardal gemau aml-ddefnydd. Yn y cyfamser, nododd preswylwyr hŷn eu bod eisiau llwybr cerdded hygyrch, diogel i gael mynediad i rannau uchaf ac isaf y parc heb groesi mannau chwarae. Ymgynghorwyd hefyd â phreswylwyr ar amseroedd agor, gan gytuno ar gyfyngiadau yn ystod y dydd fel y gallai plant ysgol lleol ddefnyddio'r parc yn ddiogel amser cinio.

Roedd yr ymgysylltu hwn yn helpu pobl i deimlo bod ganddynt rôl weithredol wrth greu'r parc a chyfrifoldeb am ofalu amdano, gan feithrin cysylltiad a roddodd hwb i falchder lleol. Fel tystiolaeth o lwyddiant y prosiect, mae'r cyngor bellach yn gweithio i sicrhau ariannu ychwanegol i greu coedwig gymunedol a gwell isadeiledd gwyrdd ar gyfer y gymuned ehangach yn agos at y parc. Bydd hyn yn dilyn yr un model ymgysylltu, gan weithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd i hwyluso man gwyrdd hyd yn oed yn fwy yn yr ardal.

Gall fod cyfleoedd hefyd i hyrwyddo manteision personol cymryd rhan, megis gwella iechyd corfforol a meddyliol. Yn Newquay Community Orchard, er enghraifft, gostyngodd 19% o gyfranogwyr eu defnydd o feddyginiaeth a lleihaodd 33% eu defnydd o wasanaethau meddyg teulu ar ôl cymryd rhan mewn gweithgareddau fel plannu coed a thyfu llysiau.

## Pwyntiau Dysgu

- Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod pobl yn gwybod sut i gymryd rhan. Canfu ein Mynegai Ymchwil Cymunedol[72] fod pobl yn ymwybodol o'r angen i gymunedau gymryd rhan mewn gwelliannau amgylcheddol, ond nid yw'r rhan fwyaf yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn eu hardal.
- Hyrwyddwch gyfleoedd ar gyfer cyfranogiad mor eang â phosibl, trwy fannau fel ysgolion, meddygfeydd, siopau a hybiau cymunedol.
- Darparwch adnoddau am ddim lle bynnag y bo modd; mae pobl lawer mwy tebygol o droi i fyny a rhoi cynnig arni os nad oes angen iddynt brynu cyfarpar neu gario offer.


Eco Rangers

# 4. Cefnogi lleoliadau cymunedol i ffynnu a chynnig amrywiaeth o weithgareddau

## Pam?

Mae ymchwil wedi canfod y gall lleoliadau cymunedol gynyddu ymdeimlad pobl o falchder yn eu hardal,[73] gan roi ymdeimlad o rymuso iddynt, lle i ddod ynghyd, a chanolbwynt ar gyfer y digwyddiadau a'r gweithgareddau sy'n ffurfio gwead bywyd cymunedol. I'r gwrthwyneb, gall diffyg lleoliadau gynyddu teimladau o gael eu gadael ar ôl sy'n gyferbyniol i falchder, gyda phobl mewn cymunedau ag ymdeimlad isel o falchder yn nodi diffyg lleoedd i gyfarfod a cholli cyfleusterau cymdeithasol fel materion allweddol iddynt. Mae'r cyfleusterau cymdeithasol hyn yn cynnwys canolfannau cymunedol, neuaddau pentref, llyfrgelloedd, a hybiau lleol eraill, gyda Create Streets[74] yn nodi "pan [maent] yn cau, gall fod yn symbol cryf ac yn sbardun i ddirywiad".

Gellid osgoi'r broblem hon pe bai awdurdodau lleol a pherchnogion eiddo preifat yn gallu darparu mannau i ddod yn lleoliadau cymunedol, ond – fel y noda'r ymchwil – yn rhy aml nid yw eu diddordebau "yn cyd-fynd â buddiannau cymunedau, gan adael eiddo yn wag ac adeiladau treftadaeth yn cael eu hesgeuluso". Mae arian y Loteri Genedlaethol yn llenwi'r bwlch hwn, gan helpu cymunedau i reoli eu mannau eu hunain, eu hadeiladu neu eu hadnewyddu yn ôl yr angen, a darparu gweithgareddau ynddynt.

## Sut?

### Darparu cymorth ariannol i adeiladu neu adnewyddu lleoliadau cymunedol

Rhwng 2016 a 2021, fe gefnogom dros 1,500 o ganolfannau cymunedol a neuaddau pentref yng Nghymru a Lloegr. Cefnogodd £119 miliwn mewn ariannu pedwar lle ar gyfartaledd fesul awdurdod lleol, sef £75,000 ar gyfartaledd mewn costau cyfalaf a £217,000 mewn costau refeniw ar gyfer pob ardal.[75] Yn bwysig ddigon, mae'r ariannu hwn yn galluogi cymunedau i roi eu hanghenion a'u blaenoriaethau yn gyntaf, gan ddylunio a gosod yr adeiladau sy'n gwasanaethu trigolion orau. Yn ei dro, mae hyn yn rhoi'r cyfle gorau posibl i bob lleoliad gasglu a gwella balchder.

Yn Wereham, er enghraifft, roedd neuadd y pentref wedi bod ar waith ers blynyddoedd mewn adeilad pren yn dyddio o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Pan ddatganwyd bod hyn yn strwythurol ansefydlog a thu hwnt i gyflwr economaidd, darparwyd ariannu gennym i adeiladu neuadd newydd. Gwnaethpwyd hyn yn dilyn dwy flynedd o ymgynghori gyda phobl leol, a dynnodd sylw at yr awydd am adeilad ecogyfeillgar a'r angen i'r neuadd fod yn hunangynhaliol yn ariannol. Daeth yr adeilad newydd yn neuadd bentref gyntaf y DU i gael ei hachredu gan Passivhaus,[76] gyda chaffi ac ystafelloedd cyfarfod y gellir eu llogi i gynhyrchu refeniw yn y dyfodol.

Yn ei lyfr Palaces for the People, mae Eric Klinenberg yn nodi bod llyfrgelloedd

cyhoeddus ymhlith y mathau pwysicaf o isadeiledd cymdeithasol, gan gynnig mynediad agored nad yw'n gyfyngedig o ran amser ac ystod o wasanaethau wedi'u hanelu'n benodol at bobl hŷn.[77] Mae eu pwysigrwydd hefyd yn tyfu wrth i argyfwng costau byw y DU ddatblygu, gyda 44% o lyfrgelloedd cyhoeddus wedi profi cynnydd yn y galw ac 81% yn paratoi ar gyfer cynnydd ychwanegol mewn defnydd gan bobl sydd angen cadw'n gynnes oherwydd prisiau cynyddol ynni.[78]

Yn 2012, nododd Cyngor Lambeth ei gefnogaeth i drosglwyddo adeilad Llyfrgell Upper Norwood, a oedd wedi bod yn rhan o'r gymuned ers dros 100 mlynedd, i reolaeth gymunedol er mwyn diogelu ei ddyfodol. Ffurfiodd pobl leol ymddiriedolaeth a chymerodd y gwaith o redeg y llyfrgell yn 2016, gyda chefnogaeth Power to Change. Ers hynny, mae wedi tyfu i groesawu tua 13,000 o bobl y mis, ac mae bellach yn cynnal digwyddiadau diwylliannol ac yn cynnig mannau cyfarfod y gellir eu llogi i godi incwm. Mae yna hefyd gaffi sy'n cael ei redeg gan fenyw leol hunanddysgedig, sy'n gwneud y llyfrgell yn lle mwy deniadol i ymweld ag ef a threulio amser.

Mae bellach yn rhan greiddiol o'r gymuned, gan gynnig dosbarthiadau cynhwysiant digidol, gwersi Saesneg, gofal plant yn ystod y gwyliau, sesiynau rhiant a phlentyn, a llyfrgell o bethau. Mae hefyd yn cynnal digwyddiadau i helpu pobl i ddod i adnabod ei gilydd yn well, gan annog rhyngweithio cymdeithasol, a darparu cymorth i fentrau cymdeithasol. Ers 2018, mae'r llyfrgell wedi cynnal gŵyl gelfyddydau gymunedol flynyddol, gan roi llwyfan i gerddorion, digrifwyr, actorion ac artistiaid lleol.[79] Ar sail y datblygiad llwyddiannus hwn o lyfrgell i ganolbwynt cymunedol, bu tîm rheoli'r llyfrgell yn gweithio gyda Locality i sefydlu rhwydwaith cymheiriaid cenedlaethol ar gyfer llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned.

**We supported more than**

**1,500**

**community centres and village halls in England and Wales from 2016 to 2021**

## Pwyntiau Dysgu

- Er mwyn cynyddu cyfranogiad, peidiwch â meddwl am ffabrig yr adeilad yn unig ond hefyd am ei wneud yn hygyrch ac yn gynhwysol. Bydd gwneud lleoliadau yn fwy hygyrch i bobl anabl hefyd yn eu gwneud yn fwy hygyrch i bobl hŷn neu rieni babanod a phlant bach. Bydd arwyddion clir i helpu pobl â dementia yn ei gwneud hi'n haws i bawb ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas.
- Ystyriwch gael cyswllt di-wifr am ddim a chael mannau penodol lle gall pobl aros mewn cynhesrwydd a chysur heb orfod cofrestru ar gyfer dosbarthiadau na thalu am fwyd neu ddiodydd.
- Mae ymchwil yn awgrymu bod rhoi llyfrgelloedd dan reolaeth y gymuned yn gwneud iddynt ddatblygu'n naturiol i fod yn hybiau lleol, oherwydd eu hyblygrwydd a'u parodrwydd i arbrofi mewn ymateb i anghenion trigolion.[80]

## Defnyddio lleoliadau fel canolfan ar gyfer gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb y gymuned gyfan

Lle mae'r adeiladau eu hunain eisoes yn bodoli, mae angen o hyd iddynt ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau i ymgysylltu â phobl. Mae bod yn oddefol yn mynd beth o'r ffordd i wasanaethu'r gymuned, ond yr ymdrech i ddod â gwahanol grwpiau ynghyd ac ymgysylltu â grŵp ehangach o bobl sy'n gwneud y lleoliadau hyn yn bwysig.

Mae'r digwyddiadau a'r gweithgareddau hyn yn darparu rhyngweithio cymdeithasol cadarnhaol, y cyfle i gwrdd â phobl newydd, cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd, a rhwydweithiau cymorth ar gyfer unigolion ynysig neu fregus. Mae ymchwil gan Local Trust[81] yn nodi y gall y canlyniadau hyn ymddangos yn "feddal neu wlanog", ond eu bod "yn union y math o newidiadau sydd, gyda'i gilydd, yn creu gwell ansawdd bywyd [ac] yn cynyddu balchder dinesig". Mae hyn oherwydd bod gweithgareddau a digwyddiadau yn llywio perthynas pobl yn uniongyrchol â'r lle maent yn byw, gan wneud eu hamgylchedd uniongyrchol yn fwy gweladwy a helpu i ffurfio cysylltiad rhwng person a lle.[82]

Plas Madoc yng Nghymru, y ganolfan hamdden oedd yr amwynder olaf a oedd ar ôl wedi i siopau lleol, gwasanaethau iechyd a thafarndai i gyd gau. Pan gaeodd y cyngor y ganolfan hamdden hefyd, ffurfiodd pobl leol Ymddiriedolaeth Gymunedol Splash i gymryd y brydles, ac mae Canolfan Hamdden Plas Madoc bellach yn cael ei rhedeg er budd y gymuned.

Yn ogystal â gwersi nofio a dosbarthiadau ffitrwydd, mae'r ganolfan yn cynnal digwyddiadau a gwasanaethau cymunedol a ddarperir gan fudiadau lleol We Are Plas Madoc a The Land. Mae'r rhain yn cynnwys grŵp gweithgarwch corfforol a chymdeithasol ar gyfer pobl ifanc, gan eu helpu i feithrin cysylltiadau a gwella eu hiechyd meddwl a chorfforol. Mae yna hefyd fforwm ieuenctid i roi llais i bobl ifanc wrth wneud penderfyniadau, grŵp cymorth i rieni, a noson bingo fisol.

Er bod awydd am ganolfan gymunedol lawn, mae'r ganolfan hamdden wedi bod yn allweddol wrth gadw'r gymuned gyda'i gilydd a chwrdd ag anghenion lleol. Enwyd Splash Community Trust yn Fenter Gymdeithasol y Flwyddyn yng Nghymru yng Ngwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru 2018[83] i gydnabod ei llwyddiant, ac mae'r grŵp yn nodi fel un o'i nodau ei fod am wneud pobl yn falch, yn fedrus ac wedi'u grymuso.[84]


Every One Every Day

## Pwyntiau Dysgu

- Mae pecyn cymorth unigrwydd Community First ar gyfer Neuaddau Pentref yn canolbwyntio ar annog pobl ynysig i gymryd y cam cyntaf o gartref i weithgareddau, ond mae'r dysgu – gan gynnwys sut i hyrwyddo digwyddiadau, denu gwirfoddolwyr a'r cyfleusterau y mae pobl yn eu gwerthfawrogi – yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i unrhyw leoliad cymunedol.[85]
- Mae cynnal digwyddiadau a gweithgareddau gyda'r nos yn golygu y gall pobl mewn gwaith llawn amser gymryd rhan, ond ystyriwch sut y gall pobl gyrraedd a gadael eich lleoliad yn ddiogel. A yw llwybrau wedi'u goleuo'n dda fel bod menywod yn teimlo'n ddiogel i gerdded ar nosweithiau tywyll? A oes rhywle i barcio gerllaw, neu drafnidiaeth gyhoeddus dda y gellir dibynnu arno i bobl allu cyrraedd a mynd adref yn ddiogel? Os na, a allwch chi ddatblygu cronfa o wirfoddolwyr dibynadwy i gynnig lifftiau?
- Ystyriwch y tensiwn rhwng darbodusrwydd ariannol ac ymgysylltu â'r gymuned, o ran nifer y gweithgareddau a gynigir. Canfu ymchwil gan Local Trust fod lleoliadau sydd â rhwng un a phump o weithgareddau yn fwy tebygol o gyflawni gwarged cyllidol na'r rhai â chwech neu fwy.[86] Fodd bynnag, gallai llai o opsiynau gyfyngu ar nifer neu ehangder y bobl sy'n cael eu denu i'r lleoliad. Efallai y byddai'n gwneud synnwyr dechrau'n fach ac ychwanegu gweithgareddau'n raddol ar ôl canfod beth sydd orau gan bobl.
- Defnyddiwch fannau niwtral i helpu gwahanol bobl i deimlo'n fwy cyfartal, ac agorwch ddigwyddiadau diwylliannol a chrefyddol i bawb er mwyn helpu pobl i ddod i adnabod y rhai na fyddent yn eu cyfarfod fel arfer.



Monkstown Boxing Club

# 5. Creu cyfleoedd i bobl gyfranogi a meithrin cysylltiadau cymunedol ehangach

## Pam?

Pobl yn cyfarfod ac yn siarad yw'r cam cyntaf tuag at adeiladu cymuned y gall trigolion deimlo'n falch ohoni. Yn y tymor hir, mae cyfranogiad hefyd yn allweddol – mae angen cyfleoedd a rhesymau ar bobl i ddal i ddod at ei gilydd a rhyngweithio. Mae tua dwy ran o dair o'n deiliaid grant yn darparu cyfleoedd i bobl gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddynt hwy, ac mae'r grantiau hynny'n fwy tebygol na'r cyfartaledd hefyd o gynyddu cyswllt cymdeithasol, gwella iechyd meddwl, hybu hunan-barch, a lleihau unigrwydd.[87]

Os yw pobl yn cael y manteision hyn o'u cymuned leol, maent yn fwy tebygol o deimlo'n gadarnhaol ac yn falch ohoni hefyd. Canfu ymchwil gan What Works Centre for Wellbeing[88] y gall digwyddiadau wella cysylltiadau cymdeithasol, gan annog rhyngweithio rhwng cenedlaethau, grwpiau ethnig a grwpiau economaidd-gymdeithasol.

Tynnodd yr ymchwil sylw hefyd at wirfoddoli fel agwedd o 'greu lleoedd' - y broses gyfranogol o gynnwys trigolion wrth ddylunio eu mannau cyhoeddus a'u gwasanaethau a rennir. Mae ein hariannu yn helpu i ysgogi 290,000 o wirfoddolwyr mewn blwyddyn arferol, gydag 82% o'r mudiadau a ariannwn yn eu defnyddio. Mae'r cyfleoedd hyn yn rhoi hwb uniongyrchol i ymdeimlad cyfranogwyr o berthyn a grymuso, gan wella balchder yn eu lle o ganlyniad.

## Sut?

### Darparu cyfleoedd i bobl gymysgu

Er mwyn teimlo balchder yn lle maent yn byw, mae angen i bobl deimlo fel rhan o'r lle – mae hyn yn golygu adnabod eu cymdogion a theimlo'n gysylltiedig â nhw. Mae'r Cinio Mawr yn benwythnos blynyddol at y diben hwn yn benodol. Mae'n gweld cymdogion yn cyfarfod mewn grwpiau mawr neu fach i dreulio amser gyda'i gilydd a dod i adnabod ei gilydd. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyfartaledd o saith miliwn o bobl wedi cymryd rhan, gyda dros 200,000 o ddigwyddiadau unigol yn 2021 yn unig.

Efallai ei fod yn swnio'n syml, ond mae cael pobl ynghyd ar y raddfa hon wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymunedau ledled y wlad. Ar ôl mynychu, mae tua 80% o gyfranogwyr yn dweud eu bod yn teimlo ymdeimlad cryfach o falchder cymunedol ac o berthyn yn sgil cymryd rhan, gyda chyfran debyg yn dweud eu bod wedi gwneud ffrindiau newydd, yn teimlo'n llai unig, ac yn meddwl bod y digwyddiadau wedi helpu i ddod â chenedlaethau a gwahanol genedlaethau a grwpiau ethnig at ei gilydd.[89]

Mae effaith cyfarfod a chymysgu â'r rhai sy'n wahanol yn gynnil, ond yn bwysig. Nid yw'n ymwneud â gorfodi cyfeillgarwch dwfn ac ystyrlon ar draws rhaniadau, ond yn hytrach â chreu'r hyn y mae ymchwil wedi'i alw'n 'gysylltiadau gwan'. Mae'r rhain yn gysylltiadau achlysurol â chydymaith a chymdogion, sy'n rhoi'r ymdeimlad i ni ein bod yn byw mewn cymuned o unigolion adnabyddadwy yr ydym yn rhannu eu

diddordebau, yn hytrach na dieithriaid.[90] Maent yn hanfodol ar gyfer lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac annog pobl i gadw llygad ar ei gilydd, sydd yn ei dro yn meithrin ymdeimlad o undod a balchder.

Defnyddiwyd Parc Sandringham yn Wetherby ar gyfer digwyddiad Cinio Mawr a oedd yn canolbwyntio ar gysylltiad rhwng cenedlaethau. Cyn y digwyddiad, pobl ifanc yn eu harddegau oedd yn defnyddio'r parc yn bennaf, gyda thrigolion hŷn yn ei osgoi oherwydd ei enw gwael am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn y Cinio Mawr, cyfarfu cyfranogwyr o bob oed, clywed safbwyntiau ei gilydd, a chytuno ar reolau sylfaenol ar gyfer defnyddio'r parc gyda'i gilydd fel bod pawb yn teimlo'n ddiogel a bod croeso iddynt. Mae pobl ifanc sy'n defnyddio'r parc nawr hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am ei gadw'n lân, a disgrifiodd un gwirfoddolwr ef fel "perl yn y goron" i'r ardal.

**Mae 80% o gyfranogwyr Y Cinio Mawr yn adrodd cael ymdeimlad o berthyn a balchder cymunedol cryfach**



African Community Centre

## Pwyntiau Dysgu

- Hyfforddwch bobl ar y rheng flaen fel gweithwyr siop, nyrsys ac athrawon i adnabod pobl sy'n unig neu'n ynysig. Ni fydd y rhai sy'n teimlo y tu allan i'r gymuned yn teimlo'n falch ohoni nes eu bod yn teimlo'n rhan ohoni.
- Darparwch gyfleoedd i unrhyw un gymryd rhan, ond canolbwyntiwch egni ac adnoddau ar y rhai sy'n dangos diddordeb ac eisiau bod yn gyfranogwyr gweithredol.[91] Ni allwch gyrraedd pawb; mae'n bosib bod ansawdd y cyfranogiad yn bwysicach na'r maint.
- Gwnewch ddigwyddiadau mor hygyrch â phosibl i wneud y mwyaf o'r cysylltiadau cymdeithasol posibl i'w ffurfio. Croesawch blant fel nad yw teuluoedd, yn enwedig teuluoedd un rhiant a'r rhai ar incwm isel, yn colli allan. Yn ogystal â gwella cysylltiadau rhwng cenedlaethau, mae hyn yn galluogi rhieni i rannu gofal plant fel grŵp, gan eu helpu i werthfawrogi'r hyn y gall bod yn rhan o gymuned ei gynnig.
- Cysylltwch ddigwyddiadau i ddathliadau cenedlaethol lle bo modd, gan y gall hyn ei gwneud yn haws ennyn diddordeb pobl. Er enghraifft, fe gysylltom Cinio Mawr 2022 â Jiwbilî Platinwm y Frenhines,[92] gan harneisio brwdfrydedd presennol i gynyddu ymgysylltiad a chyrhaeddiad.




Welcome to Our Woods

## Darparu cyfleoedd gwirfoddoli

I unigolion, cyfranogiad yn aml yw'r cam cyntaf tuag at rôl fwy ymglymedig ym mywyd y gymuned trwy wirfoddoli. Yn ei dro, mae gwirfoddoli'n cael effaith sylweddol ar sut mae pobl yn teimlo amdanyn nhw eu hunain a'u cymuned. Canfu ymchwil i'n Cronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws fod 56% o'r rhai a wirfoddolodd wedi dweud bod y profiad wedi rhoi ymdeimlad cryfach o gysylltiad cymunedol iddynt. O gymharu ag ystadegau cenedlaethol, roedd gwirfoddolwyr hefyd yn fwy tebygol o sôn am ymdeimlad cryf o berthyn (76% o gymharu â 63%).[93]

Yn Sir Antrim, mae Cymdeithas Gymunedol Carnlough yn canolbwyntio ar hybu balchder dinesig trwy wasanaethau cymunedol a rhaglenni sgiliau a arweinir gan wirfoddolwyr. Mae'r rhain yn cynnwys clwb garddio, cynllun haf i blant ysgol, cylchlythyr, a phecynnau lles ar gyfer preswylwyr ynysig. Fforwm pentref o bobl leol sy'n penderfynu ar brosiectau, gan sicrhau y gall cyfranogwyr hefyd helpu i lunio dyfodol gwaith y mudiad. Mae hyn yn rhoi taith i bobl o gyfranogiad cychwynnol hyd at wirfoddoli a chyfranogiad strategol, gan gynyddu eu hymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb ar bob cam.

Mae gwirfoddoli hefyd yn darparu ffordd i bobl adeiladu cysylltiadau gwan a'r ymdeimlad cysylltiedig o berthyn, yn enwedig os ydynt hwy eu hunain yn teimlo eu bod wedi'u hymyleiddio o fewn eu cymunedau. Mae Can Do Cymru yn cefnogi pobl ifanc anabl 16-35 oed i arwain ar weithredu cymdeithasol yn eu cymunedau. Ym mlwyddyn gyntaf y prosiect, roedd wedi ymgysylltu â 262 o bobl ifanc anabl, a gyfrannodd dros 2,200 awr o amser gwirfoddolwyr.

Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda Matt's Cafe, caffi cymunedol talu-wrth-deimlo, i lunio pecynnau gofal ar gyfer pobl ddigartref yn Abertawe, gan gyrraedd dros 150 o bobl ddigartref yn y ddinas ym mis Rhagfyr 2020 yn unig. Darparodd hyn gysylltiad rhwng dau grŵp a oedd yn aml yn cael eu hymyleiddio, yn ogystal â rhwng gwirfoddolwyr eu hunain. Yn nodedig, dywedodd pob un o'r gwirfoddolwyr fod y profiad wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy cynwysedig yn eu cymuned.

**Dywedodd 56% o'r rhai hynny a wirfoddolodd fel rhan o Gronfa Gymorth Cymunedol y Coronafeirws bod y profiad wedi rhoi ymdeimlad cryfach o gysylltiad cymunedol iddynt**



Civic Square

## Pwyntiau Dysgu

- Darparwch wahanol bwyntiau a lefelau mynediad, fel y gall pobl gyfrannu cymaint neu gyn lleied ag y dymunant. Gall cyfleoedd gwirfoddoli anffurfiol neu ficro, fel siopa ar gyfer cymydog bregus, helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng lle, cymuned ac unigolion mewn ffordd nad yw bob amser yn cael ei hadlewyrchu mewn gwirfoddoli mwy ffurfiol.
- Gwnewch hi'n hawdd ac yn hwyl i bobl chwarae eu rhan. Gall cael cyflenwad o fachwyr a bagiau am ddim annog pobl i gymryd rhan mewn sesiynau codi sbwriel, a gellir defnyddio deunyddiau a gesglir o ymgyrchoedd glanhau, fel gwydr môr neu blastig, ar gyfer gweithgareddau crefft neu fenter gymdeithasol a rennir.
- Ailadroddwch ddigwyddiadau bob wythnos, yn fisol neu'n flynyddol, fel y gall pobl ddod i arfer â nhw a theimlo'n gyfforddus yn cymryd rhan. Bydd rhai preswylwyr yn cymryd rhan o'r dechrau, ond bydd angen amser ar eraill i ymuno.
- Er bod cost llogi a hyfforddi cydlynwyr gwirfoddol, bydd un da yn sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ymgysylltu ac yn cael eu dyrannu i'r gwaith cywir, tra'n cael y gorau o'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u hangerdd.
- Anogwch wirfoddolwyr i fod yn glir ynghylch eu sgiliau a'u diddordebau, fel y gallant gael eu rhoi mewn rolau y byddant yn eu mwynhau. Ond caniatewch ar gyfer cylchdroi hefyd, fel bod pobl yn cael cyfle i roi cynnig ar wahanol bethau a dod o hyd i'r hyn sy'n gweithio orau iddyn nhw.



Lagmore Youth Project

## Byddwch yn fwriadol ac yn greadigol i groesawu ac ennyn diddordeb pobl

Waeth faint o ddigwyddiadau a chyfleoedd sydd ar gael i bobl, a pha mor effeithiol y cânt eu hysbysebu, ni fydd y rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol ohonynt o hyd. Mae damcaniaeth ymgysylltu Michel Bachmann yn cyfeirio at y mwyafrif tawel hwn fel 'defnyddwyr goddefol' - pobl a allai ddod i ddigwyddiad unwaith os oes budd uniongyrchol, ond yn tueddu i beidio â gwneud hynny gan amlaf.[94] I lawer o grwpiau cymunedol, efallai na fydd yn werth yr amser, yr ymdrech a'r gost i geisio ymgysylltu â'r grŵp hwn, pan fydd ffocws wedi'i gyfeirio'n well at y rhai sydd am gymryd rhan.

Fodd bynnag, mae elusennau sy'n defnyddio cysylltwyr stryd neu gymunedol yn gweld hyn yn wahanol. Maent yn gweld unigolion lleol ymroddedig yn canolbwyntio ar ychydig o strydoedd – tua 100-200 o aelwydydd – ac yn gweithio'n ddiwyd i wneud i bobl deimlo bod croeso iddynt a'u cysylltu â gweithgareddau a gwasanaethau cyfagos, ni waeth faint maen nhw wedi ymgysylltu. Mae menter Together We Can yn Birmingham yn defnyddio'r model hwn, gyda chysylltwyr yn curo ar ddrysau pobl i gychwyn sgwrs, stondin sgwrs dros dro y tu allan i ysgol leol wedi'i hanelu at rieni, ac ymgysylltiad ieuenctid wedi'i dargedu mewn mannau cyfarfod fel parciau, siopau a siopau cludfwyd.

Cyfarfu un cysylltydd â rhiant yr oedd ei blentyn yn ei arddegau yn cael trafferth yn yr ysgol. Cysylltodd y cysylltydd y teulu â mudiad ieuenctid a oedd yn cynnig tiwtora mathemateg, a'u helpu i gymryd rhan mewn menter gymdeithasol leol. Mewn achos arall, digwyddodd cysylltydd guro ar ddrws swyddog ymgysylltu rhanbarthol Greggs. Arweiniodd y sgwrs at bartneriaeth hirdymor, sy'n gweld Greggs yn rhoddi bwyd heb ei werthu i ginio cymunedol wythnosol.

Agwedd ddiddorol ar Together We Can yw bod gan y rhan fwyaf o gysylltwyr strydoedd bwysau a brwydrau sylweddol yn eu bywydau eu hunain. Gall curo ar ddrysau dieithriaid fod yn gymaint o ryngweithio therapiwtig iddyn nhw ag i'r rhai y maent yn cwrdd â nhw. Ond maen nhw hefyd yn realistig am yr ymagwedd; mae cysylltwyr bob amser yn gweithio mewn parau er diogelwch, ac maent yn cydnabod y bydd ymatebion gelyniaethus yn ogystal â rhai cadarnhaol.

Yn gyffredinol, mae'r prosiect yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i unigolion ar draws cymdogaeth Firs a Bromford. Yn ei hail flwyddyn, dywedodd 92% o oedolion a holwyd eu bod yn adnabod mwy o'u cymdogion wrth eu henwau, a dywedodd 98% fod ganddynt fwy o gymdogion y gallent droi atynt am gymorth.[95] Y pwynt hollbwysig yw nad yw'r rhain o reidrwydd yn aelodau nodweddiadol o'r gymuned sy'n ymgysylltu ac yn weithgar - y rhai y mae Bachmann yn eu galw'n 'stiwardiaid' ac yn 'gyd-grewyr'. Maen nhw'n bobl normal sy'n ymrwymo mwy ac yn dod yn llawer mwy cysylltiedig diolch i allgymorth gweithredol y prosiect.

> **"Cyfranogiad yn aml yw'r cam cyntaf tuag at rôl mwy ymgysylltiol ym mywyd y gymuned trwy wirfoddoli"**

## Pwyntiau Dysgu

- Byddwch yn llawn dychymyg wrth ddod o hyd i bobl a allai fod ar eu colled. Defnyddiodd Ageing Better yn Camden allgymorth stryd yn agos at y man lle'r oedd gweithgareddau ar gyfer pobl hŷn yn cael eu cynnal er mwyn cyrraedd trigolion hŷn ynysig. Roedd sgwrsio'n hamddenol a chlywed straeon pobl yn gymorth i greu perthynas, ac yn gyfle i'w cyflwyno'n anffurfiol i wasanaethau a gweithgareddau lleol. Roedd camau syml eraill yn cynnwys gwisgo'n hamddenol, ac nid mewn dillad brand, yr oedd pobl hŷn yn eu cysylltu â chodwyr arian stryd.[96]
- Rhowch y dasg benodol o greu croeso cynnes i fynychwyr newydd i rywun. Gall hyn wneud byd o wahaniaeth o ran a fydd pobl yn dod eto. Dylent gyfarfod a chyfarch pobl wrth iddynt gyrraedd, eu dangos o gwmpas, a gwneud iddynt deimlo'n gartrefol trwy egluro ble i eistedd, cael paned, neu ddod o hyd i'r toiled, yn ogystal â'u cyflwyno i eraill i gael sgwrs i lifo.[97]




East Lothian Council

# 6. Adfywio ac ail-ddychmygu canol trefi a'r stryd fawr

## Pam?

Mae'r stryd fawr yn dirywio ledled y DU, gyda nifer yr ymwelwyr yn gostwng[98] a siopau'n cau[99] ledled y wlad, ffaith sydd ond wedi'i gwaethygu gan bandemig COVID-19. Fel y noda'r papur gwyn hybu ffyniant bro, gall yr "awyrgylch o ddirywiad" y mae hyn yn ei greu danseilio balchder mewn lle. Mae ymchwil yn awgrymu bod yr awyrgylch hwn yn cael effaith fwy arwyddocaol yng nghanol trefi nag mewn mannau eraill, gyda dirywiad y stryd fawr wrth wraidd y teimladau o gael eu gadael ar ôl.[100]

Mae Power to Change yn nodi bod mwy na dwy ran o dair o bobl yn poeni am ddirywiad y stryd fawr a'r effaith a gaiff ar falchder dinesig.[101] Dirywiad manwerthu sy'n dueddol o fod y prif reswm dros y sefyllfa hon, ynghyd â thueddiadau cyflogaeth cyfnewidiol.

Ond er mwyn adfywio'r stryd fawr mewn ffordd sydd hefyd yn adfer ymdeimlad o falchder lleol, nid manwerthu yn unig yw'r ateb. Mae ein deiliaid grant yn helpu i ailddiffinio ac arallgyfeirio'r stryd fawr i ddod yn fwy cymunedol ac amrywiol yn eu defnydd, gan gyfuno busnesau cymunedol, mannau cyfarfod a mannau creadigol, gan helpu canol trefi i fod yn lleoedd i fod yn falch ohonynt unwaith eto.[102]

## Sut?

### Cefnogi busnesau cymunedol

Mae Power to Change wedi canfod bod busnesau cymunedol yn gwasanaethu fel 'cyrchfannau', gan gynyddu nifer yr ymwelwyr cyffredinol â chanol dinasoedd sydd wedyn o fudd i fusnesau lleol eraill.[103] Maent hefyd yn denu set fwy amrywiol o ddefnyddwyr y stryd fawr ac yn rhoi hwb economaidd – am bob £1 sy'n cael ei gwario gan fusnesau cymunedol, mae 56c yn aros yn yr economi leol.[104] Mae hyn i gyd yn cyfuno i wneud stryd fawr gyda busnesau cymunedol yn lleoedd mwy bywiog, croesawgar a chynhyrchiol, y mae cymunedau yn teimlo eu bod yn berchen arnynt ac yn ymfalchïo ynddynt.

Mae'r stryd fawr mewn trefi a phentrefi bach mewn perygl arbennig o ddirywio, heb yr economi bywyd nos sy'n cadw canolfannau trefol mawr i ffynnu.[105] Gall colli busnesau yn y lleoedd hyn newid bywydau trigolion. Yn Broughton yng Ngororau'r Alban, caeodd yr unig siop leol yn 2018. Roedd pobl yn wynebu taith gron o ddwy awr, gydag opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus cyfyngedig, i gyrraedd y lle agosaf nesaf i brynu nwyddau hanfodol.

Mewn ymateb, gyda chymorth grant Scottish Land Fund, dechreuodd grŵp o drigolion redeg y siop leol fel busnes cymunedol, sydd wedi bod yn llwyddiant gwirioneddol.[106] Yn hollbwysig, mae'r siop wedi gweithio'n agos gyda mudiadau eraill, gan gynnwys neuadd y pentref ac ystafell de. Dosbarthodd y ddau le wybodaeth a ffurflenni cais pan oedd siop y pentref yn codi arian trwy gyfranddaliadau cymunedol, ac ers hynny mae'r ddau wedi elwa o'r siop gan sicrhau nifer rheolaidd o ymwelwyr.

Cafwyd canlyniadau cadarnhaol tebyg o raglen Village SOS, a redwyd gennym i gefnogi cymunedau gwledig i ffynnu. Teimlai mwy na 50% o'r ymatebwyr fod y gwaith a wnaed drwy'r rhaglen, o gaffis a

hybiau cymunedol i neuaddau pentref a pharciau gwledig, wedi cynyddu balchder yn yr ardal. Yn un o'r lleoliadau, fodd bynnag, roedd y ffigwr yn 83%. Yma, roedd siop cymunedol newydd – yr unig un yn y pentref – ynghyd â swyddfa bost, caffi, neuadd gymunedol ac ystafelloedd cyfarfod, yn llenwi bylchau hanfodol oedd ar goll i'r gymuned. Trwy gynnig buddion gwirioneddol a galluogi pobl i fodloni nifer o'u hanghenion o ddydd i ddydd heb adael y pentref, gwnaethant gyrraedd cyfran fawr o drigolion, a rhoi "calon [lle] mae pob oedran ac adran o'r gymuned yn gallu ymgasglu" i'r pentref.[107]

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod gan fanwerthu rôl bwysig i'w chwarae o hyd yn y stryd fawr amrywiol. Drwy leihau'r angen i deithio i brynu nwyddau hanfodol, a thrwy ddangos i bobl y gall eu cymuned redeg pethau ar ei phen ei hun ac ar gyfer ei hun, mae siopau cymunedol yn darparu ymdeimlad o hunangynhaliaeth sy'n ffactor allweddol i hybu balchder lleol.

Mewn ardaloedd trefol, nid oes prinder siopau, felly mae busnesau cymunedol yn gwahaniaethu eu hunain trwy gynnig rhywbeth gwahanol. Mewn llawer o achosion, mae eu ffocws ar bobl cyn elw yn eu gweld yn troi'n ganolbwyntiau, yn enwedig ar gyfer aelodau o'r gymuned sydd wedi'u hymyleiddio. Mae ein cefnogaeth i lawer o'r busnesau hyn yn anuniongyrchol, gan ddod drwy Power to Change, a sefydlwyd gennym drwy waddol o £149 miliwn yn 2015 i gefnogi busnesau cymunedol ledled Lloegr.

Yn St Helens, helpodd Power to Change Cafe Laziz i ddechrau gyda buddsoddiad o £14,000. Fe'i sefydlwyd yn 2019 gan athrawes iaith Saesneg a sylwodd hyd yn oed ar ôl cael statws ffoadur, bod ei myfyrwyr yn dal i wynebu anhawster yn dod o hyd i waith. Mae'r caffi yn eu helpu i fagu hyder a sgiliau iaith trwy hyfforddiant lletygarwch a choginio, yn ogystal â'u helpu i adeiladu ymdeimlad o gymuned gyda'i gilydd a phobl leol.

Mae bellach wedi dechrau cynnal sesiynau crefft, digwyddiadau rhwydweithio, sgyrsiau ac ymgyrchoedd rhoddion, gan wasanaethu fel canolbwynt cymunedol. Mae hyn yn helpu i feithrin cysylltiadau rhwng ffoaduriaid a phobl leol hirdymor, sy'n lleihau'r ymdeimlad o 'arallrwydd' ac yn rhoi hwb i falchder cymunedol. Un enghraifft fach o'r broses hon ar waith yw bod bwyd Arabaidd y caffi wedi bod mor boblogaidd ymhlith cwsmeriaid fel bod tatws trwy'u crwyn wedi'u tynnu oddi ar y fwydlen.[108]

**"Mae Power to Change wedi canfod bod busnesau cymunedol yn gwasanaethu fel cyrchfannau"**


Eco Rangers

## Pwyntiau Dysgu

- Ymgysylltwch â busnesau cymunedol ynghylch pa gymorth sydd ei angen arnynt yn benodol. Canfu Power to Change fod dros draean yn teimlo nad yw darparwyr cymorth traddodiadol fel partneriaethau menter lleol yn deall y sector yn ddigonol.[109] Yn Lerpwl, mae Kindred yn darparu rhwydweithio a chyngor gan gymheiriaid yn y sector, ac mae wedi canfod bod hyn yn ffordd bwerus o gael yr effaith fwyaf a gwasanaethu ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach yn well.[110]
- Mae My Community yn dwyn ynghyd ystod o adnoddau dysgu ymarferol o 12 mudiad gan gynnwys Locality, ACRE, NCVO a Power to Change i helpu unrhyw un sydd am wneud eu cymuned yn lle gwell i fyw.


African Caribbean Community Association

## Creu cymunedau stryd fawr

Mae llwyddiant y frwydr i achub y stryd fawr yn dibynnu ar eu gwneud yn gymunedau unwaith eto. Fel y mae Power to Change wedi nodi, roedd y stryd fawr yn arfer bod yn "lle cyn-ddinesig â masnachol" ac roedd ganddynt "gyfran uwch o dai nag a welir heddiw".[111]

Yn Dumfries, lle'r oedd hanner holl siopau'r dref wedi cau erbyn 2016, mae Midsteeple Quarter Community Benefit Society wedi creu cymuned newydd yng nghanol y dref. Fe brynodd y grŵp wyth uned wag ar y stryd fawr, gyda chefnogaeth y Scottish Land Fund. Dros y blynyddoedd nesaf, bydd yr adeiladau'n cael eu troi'n fflatiau fforddiadwy a mannau busnes, gan wneud y gymuned newydd yn rhan barhaol o ganol y dref.

Yn bwysig ddigon, mae'r broses hon eisoes wedi dechrau adfer balchder, diddordeb a chyffro lleol yn yr ardal, gyda diwylliant bywiog yn ffurfio o amgylch detholiad newidiol o gerddoriaeth greadigol a phrosiectau celf yn yr unedau. Mae'r gwaith adnewyddu 'yn y cyfamser' ar yr unedau, nawr eu bod yn eiddo i'r gymuned yn hytrach na'u cadw'n breifat, wedi creu bwrlwm gwirioneddol ac wedi annog pobl i feddwl ymlaen llaw am yr hyn y maent am i ganol eu tref fod yn y dyfodol.[112]

Fodd bynnag, mae angen rhywfaint o ofal o ran tai ar y stryd fawr. Mae perygl, yn yr amgylchedd presennol o brinder tai,[113] y gallai cynllun llwyddiannus danio ton o addasiadau sy'n dinistrio strydoedd mawr. Fel y dywed Sefydliad Bennett: "Bydd caniatáu i fannau cymunedol a hamdden gael eu troi'n breswylfeydd preifat yn cau canol trefi, gan niweidio ansawdd bywyd cymunedol a lleihau atyniad cyffredinol rhai trefi."[114] Er mwyn osgoi hyn, mae angen agwedd gyfannol ar gynlluniau ar gyfer datblygiadau tai stryd fawr, gan gynnwys cymysgedd o wahanol fathau o ofodau a defnyddiau i ffurfio cymuned, nid dim ond grŵp o unedau byw.

Gyda'i gilydd, gellir galw stryd fawr sy'n cynnwys mannau byw, mannau creadigol a chanolfannau cymunedol, ochr yn ochr â manwerthu, yn 'strydoedd canolbwynt'. Mae'r Centre for Social Justice yn nodi y gallai'r rhain fod yn hanfodol ar gyfer "adfer ymdeimlad o falchder o amgylch canol trefi adfeiliedig", trwy gynnwys canolfannau teulu, mannau cydweithio, cyfleusterau iechyd, mannau addoli a chanolfannau ieuenctid, ymhlith gwasanaethau eraill.[115] Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu bod trefi sydd â'r amrywiaeth hwn mewn gwirionedd yn well ar gyfer manwerthu hefyd; mae strydoedd mawr trefi canolbwynt yn cynnwys 36% o gyfeiriadau manwerthu, o gymharu â 29% ar gyfartaledd,[116] diolch i gynnydd yn nifer yr ymwelwyr a mannau mwy croesawgar i aros a threulio amser.

Mae hyn yn arwain at bwynt pwysig am strydoedd a balchder – er mwyn teimlo'n falch o'u strydoedd, mae angen i gymunedau allu treulio amser ynddynt. Mae hyn yn anodd ei wneud mewn rhwydweithiau ffyrdd lle ceir tagfeydd yn aml, ond mae profion wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Mae Play Streets gan Playing Out yn gweld strydoedd preswyl ar gau dros dro i draffig, gyda 89% o gyfranogwyr yn teimlo gwell ymdeimlad o berthyn i gymdogaeth ar ôl cymryd rhan, a'r un gyfran yn cytuno eu bod yn adnabod mwy o bobl ar eu stryd ar ôl y digwyddiad.[117]

## Pwyntiau Dysgu

- Arallgyfeiriwch wasanaethau i greu cymunedau stryd fawr go iawn. Gall buddsoddiadau cymharol fach helpu undebau credyd, canolfannau cymunedol, gorsafoedd llogi sgwteri symudedd, digwyddiadau dros dro, caffis, theatrau, parciau poced ac orielau i lenwi unedau gwag.
- Gweithiwch gyda phobl sydd eisoes yn byw ger y stryd fawr i ddarganfod beth maen nhw ei eisiau, yn hytrach na dim ond adeiladu fflatiau a gobeithio y byddan nhw'n gwerthu. Bydd hyn yn helpu i dyfu cymuned stryd fawr organig, gan osgoi gwrthdaro rhwng trigolion presennol a newydd-ddyfodiaid.
- Wrth ddarparu tai ar gyfraddau fforddiadwy, sicrhewch fod y rhent arfaethedig yn wirioneddol fforddiadwy i bobl leol. Mae Heart of Hastings Community Land Trust yn defnyddio'r cysyniad o 'rhent byw', sy'n seiliedig ar incwm lleol ac wedi'i gapio fel na fydd yn codi y tu hwnt i chwyddiant.[118]


Llangors Community Shop

# 7. Adfer a defnyddio adeiladau treftadaeth i wella cysylltiad pobl â lle, teulu a hanes

## Pam?

Mae ymchwil Historic England wedi canfod bod 92% o bobl sy'n byw mewn ardaloedd â chynllun adfywio hanesyddol yn teimlo ei fod wedi codi balchder lleol,[119] ac mae 80% o bobl yn teimlo bod treftadaeth yn gwneud eu hardal yn lle gwell i fyw.[120] Canfu'r What Works Centre for Wellbeing y gall gweithgareddau a gynhelir mewn adeiladau treftadaeth wella ymdeimlad o berthyn a balchder,[121] ac y gall bod o gwmpas lleoedd hanesyddol yn unig gynyddu balchder pobl mewn lle.[122] Fodd bynnag, nododd yr un ymchwil hefyd fod y dystiolaeth ar gyfer canlyniadau llesiant cadarnhaol o weithgareddau mewn tirweddau hanesyddol a byw mewn mannau hanesyddol yn 'ansawdd is' yn bennaf.

Yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, rydym yn cefnogi adeiladau hanesyddol oherwydd eu bod yn agweddau gwerthfawr ar ein hetifeddiaeth ddiwylliannol gyffredin, ac er mwyn eu harneisio er budd y gymuned. Gallai hyn fod trwy: ddefnyddio hanes lleol i adeiladu ymdeimlad o hunaniaeth a rennir; defnyddio adeiladau treftadaeth fel lleoliadau cymunedol, er enghraifft i ddathlu digwyddiadau lleol a chenedlaethol, fel eu bod yn dod yn rhan arferol o fywyd cymunedol; neu roi addysg wrth galon adfer treftadaeth, y mae Public First wedi canfod ei fod yn bwysicach i gysylltu hen adeiladau â balchder dinesig na'r strwythurau ffisegol eu hunain.[123]

**80%**

**o bobl yn teimlo bod treftadaeth yn gwneud eu hardal yn lle gwell i fyw**



Welcome to our Woods

## Sut?

### Adnewyddu mannau nad ydynt yn rhestredig i ddod â'r gymuned yn nes at ei gilydd

Mae adeiladau hanesyddol yn tueddu i fod yn rhestredig, gan eu gwneud yn ddrud i'w hadnewyddu ac yn anodd eu newid. Fodd bynnag, yn aml mae adeiladau eraill ar y tir a gerllaw y gellir eu harneisio at ddefnydd cymunedol, gan wneud safleoedd treftadaeth yn asedau tra'n cadw eu gwerth hanesyddol. Mae hyn yn golygu y gall mwy o'r gymuned dreulio mwy o amser yn eu treftadaeth leol ac o'i chwmpas.

Yng Nghaerdydd, ariannodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r cyngor lleol y gwaith adfer gofalus o Gwrt Insole, maenordy Fictoraidd rhestredig Gradd II. Ar yr un pryd, fe ariannom y gwaith o adnewyddu'r stablau, gerddi ac adeiladau allanol nad ydynt yn rhestredig yn gaffi a chanolbwynt cymunedol, gan ddarparu ffynonellau incwm ar gyfer y lleoliad. Mae'r gofodau bellach yn cael eu defnyddio ar gyfer dosbarthiadau dawns, sesiynau yoga, sioeau theatr a digwyddiadau eraill. Gwnaeth hyn yr hyn a allai fel arall fod yn ased sefydlog i mewn i fan cyhoeddus egnïol, gan ychwanegu gwerth trwy roi'r faenordy hanesyddol wrth galon y gymuned.

Yn allweddol i hyn oedd canolbwyntio gwaith adfer treftadaeth ar ddod â'r gymuned leol i mewn yn hytrach na denu twristiaid, trwy ddarparu mannau a gweithgareddau cymunedol. Gall twristiaeth ddod â refeniw defnyddiol i ardal, ond gall yr effeithiau negyddol fel mwy o draffig a mannau cyhoeddus gorlawn leihau balchder hefyd.[124]

### Pwyntiau Dysgu

- Rhowch gynlluniau ar waith ar gyfer stiwardiaeth barhaus a chynnal a chadw asedau treftadaeth wedi'u hadfer. Gall y buddion y maent yn eu cynnig gael eu diddymu os ydynt yn dadfeilio, neu'n dod yn safleoedd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gall cyfleoedd gwirfoddoli drwy waith adfer hanesyddol ac archaeoleg fod yn ffordd dda o gael pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd neu leiafrifol ethnig a chefndiroedd cymdeithasol economaidd llai breintiedig i ymgysylltu â'u treftadaeth leol. Enillodd y trigolion a gymerodd ran yn Middlefield Dig yn Swydd Lincoln sgiliau trosglwyddadwy, gan arwain at ymdeimlad o undod a balchder cymunedol trwy'r gwaith.[125]



Climate Action Fund launch

## Estyn allan i gymunedau nad ydynt fel arfer yn cael eu gwasanaethu gan dreftadaeth

Mae pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol llai breintiedig yn llai tebygol o gymryd rhan mewn treftadaeth,[126] ac felly'n llai tebygol o deimlo'r ymdeimlad o falchder yn eu lle y mae'r asedau hyn yn eu cynnig. Gall gweithgareddau allgymorth penodol fynd i'r afael â hyn, ac nid oes angen iddynt gynnwys grantiau mawr neu hirdymor o reidrwydd; gall gweithredoedd bach wneud gwahaniaeth mawr.

Yn Pipe Factory, eiconig Glasgow, darparwyd grant bach gennym i helpu grŵp lleol Friends of the Pipe Factory estyn allan i ardaloedd difreintiedig Calton a Barras yn y ddinas. Cysylltodd y grŵp bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ag ymarferwyr creadigol, i archwilio eu creadigrwydd trwy hyfforddiant sgiliau, gwaith cyfiawnder cymdeithasol, addysg ddiwylliannol a syniadau busnes. Digwyddodd hyn i gyd yn adeilad o'r 1870au, gan helpu pobl ifanc i deimlo ymdeimlad o berchnogaeth o ased treftadaeth na fyddent o bosibl wedi'i weld fel 'un iddyn nhw' fel arall.

### Pwyntiau Dysgu

- Meddyliwch yn gynhwysol am sut olwg sydd ar adeilad treftadaeth yn eich cymuned. Mae lleoedd sy'n gysylltiedig â gorffennol diwydiannol lleoliad yn ddewisiadau amlwg, ond efallai y byddai treftadaeth amlddiwylliannol y DU i'w gweld yn well mewn mannau lle mae pobl o liw wedi dod at ei gilydd ar draws sawl cenhedlaeth. Gall y rhain gynnwys caffis, eglwysi, mosgiau, temlau, cartrefi a gweithleoedd.[127] Mae rhai, fel Mosg Shah Jahan yn Woking, yn dyddio'n ôl i'r 19eg ganrif.[128]



Every One Every Day

## Defnyddio adeiladau treftadaeth i ddathlu hanes lleol

Yn ogystal â bod yn asedau cymunedol unigryw, mae adeiladau treftadaeth hefyd yn lleoliadau delfrydol ar gyfer archwilio a hyrwyddo hanes lleol, y canfuwyd ei fod yn hybu balchder.[129] Yn Plaistow yn Llundain, agorodd y llyfrgell gyhoeddus gyntaf yn 1897. Cafodd ei hadnewyddu yn 2012 ac, fel rhan o'r ailagoriad, defnyddiodd grŵp llywio lleol Big Local yr adeilad i lansio Growing Up in Plaistow – arddangosfa sy'n dathlu hanes a straeon lleol.

Roedd y grŵp yn cydnabod bod cymunedau lleiafrifoedd ethnig yr ardal yn awyddus i gael gwybod eu straeon – sut y cyrhaeddon nhw'r DU a beth ddaeth â nhw i Plaistow – ond hefyd bod trigolion gwyn hŷn eisiau rhannu eu hatgofion o orffennol yr ardal a sut roedd eu teuluoedd wedi ei weld yn newid trwy genedlaethau lluosog.[130] Y straeon hyn, ynghyd â ffotograffau archif, mapiau a phethau cofiadwy eraill, oedd cynnwys yr arddangosfa, gan fframio'r holl grwpiau fel aelodau yr un mor bwysig o Plaistow a chyfranwyr at ei threftadaeth gyfoethog.

Wrth ei lansio yn nigwyddiad ailagor y llyfrgell sefydlwyd yr adeilad fel lleoliad a rennir ac ased ar gyfer y gymuned gyfan, waeth beth fo'u cefndir. Teimlai pobl ymdeimlad o falchder a pherthyn, boed hynny trwy ddathlu eu hamrywiaeth neu wrth i'w hanes gael ei adrodd, a daethant at ei gilydd trwy ymdeimlad cyffredin o hunaniaeth leol.

### Pwyntiau Dysgu

- Byddwch yn barod am sgyrsiau cymhleth pan fydd treftadaeth yn cynrychioli neu wedi'i seilio ar elw camweddau hanesyddol, fel caethwasiaeth. Nid yw hyn yn golygu bod angen symud adeiladau, ond – yn unol â safbwynt Historic England [131] – dylid cael ailddehongliad gonest o'r hyn y mae'r adeilad yn ei gynrychioli a gwirionedd ei orffennol. Gwnewch hyn mewn cydweithrediad ag aelodau amrywiol o'r gymuned, fel bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu clywed. Gall deialog, a wneir yn sensitif, helpu gwahanol ochrau i ddeall ei gilydd a chyfaddawdu, er enghraifft trwy gytuno ar destun gwybodaeth ac arwyddion sy'n cydnabod dadleuon hanesyddol yn hytrach na'i wyngalchu.
- Cofiwch hefyd bod rhai digwyddiadau hanesyddol yn rhannu pobl. Byddwch yn ystyriol o unrhyw sensitifrwydd lleol a cheisiwch gyngor gan bob ochr i osgoi achosi pechu.



Nae Drama

# 8. Harneisio diwylliant i ddod â phobl at ei gilydd

## Pam?

Dengys ymchwil y gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol hybu balchder lleol.[132] Yn y cyd-destun hwn, fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn glir ynghylch yr hyn a olygwn wrth 'ddiwylliant'. Mae'r ystyr bob dydd yn aml yn cyfeirio at ddigwyddiadau mewn mannau sefydlog neu berfformiadau ar gyfer cynulleidfaoedd sefydlog; gall y digwyddiadau unwaith ac am byth hyn mewn theatrau, lleoliadau cyngherddau a safleoedd gwyliau helpu pobl i deimlo'n falch, os ydynt yn cyfrannu at weld eu cymunedau yn lleoedd bywiog, egnïol.

Ar yr un pryd, gall digwyddiadau o'r fath fod yn anhygyrch i bobl leol ddifreintiedig, boed hynny oherwydd cost neu ganfyddiad. Gall hyn arwain at deimladau o gael eu cau allan sydd mewn gwirionedd yn lleihau balchder. Canfu A New Direction fod pobl ifanc ddifreintiedig yn Llundain yn teimlo ymdeimlad o 'arallrwydd' o ran y diwylliant toreithiog a gynigiwyd yn agos i'w cartrefi, gan eu gadael yn teimlo fel nad oedd ar eu cyfer hwy.[133]

I wrthsefyll hyn, mae ar bobl angen digwyddiadau diwylliannol hygyrch, rhad ac am ddim, cynhwysol sy'n digwydd lle maen nhw'n byw, ac mae angen gwell mynediad i ddiwylliant prif ffrwd ar y rhai mwyaf ymylol mewn cymdeithas. Mae ein hymchwil yn cefnogi hyn, gan ganfod bod prosiectau sy'n cynnig gweithgareddau celfyddydol a threftadaeth yn fwy tebygol nag eraill o arwain at ymdeimlad cynyddol o falchder cymunedol a pherthyn.[134]

## Sut?

### Rhoi modd i bobl greu eu diwylliant eu hunain

Yn gymaint ag y gall ymgysylltu wedi'i dargedu fod yn allweddol wrth gysylltu cymunedau â digwyddiadau diwylliannol, mae'n bwysig peidio ag anghofio'r ymagwedd syml; efallai na fydd y mwyafrif o aelodau'r gymuned yn mynd allan o'u ffordd i gymryd rhan mewn gweithgareddau, ond gallant barhau i ryngweithio'n ddigymell â digwyddiadau hyperleol, syml sy'n digwydd o'u cwmpas.

Rydym yn cefnogi Palasau Hwyl, sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant fel rhywbeth syml ac ymarferol y mae pobl yn cymryd rhan ynddo gyda'i gilydd. Mae'n gweld cymunedau ledled y DU yn dod at ei gilydd i gynllunio a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn ystod penwythnos blynyddol ym mis Hydref. Mae'r digwyddiadau hyn yn digwydd mewn mannau cymunedol, o'r stryd fawr, traethau a pherllannau i dafarndai, eglwysi ac ysgolion, gan helpu i'w hagor i bobl o bob cefndir, i greu ymdeimlad o undod, yn hytrach nag arallrwydd. Ers iddo ddechrau yn 2014, mae dros 700,000 o bobl wedi cymryd rhan.

Mae gweithgareddau'n cynnwys celf a chrefft, chwaraeon, ac ymgysylltu â threftadaeth leol – mae'r ffocws ar gyfranogiad a dysgu. Yn Pitsmoor Adventure Playground yn Sheffield, defnyddiodd digwyddiad Palasau Hwyl weithgareddau celfyddydol a gwyddoniaeth i ddod â'r gymuned amrywiol ynghyd. Defnyddiodd cynrychiolydd o'r maes chwarae y

digwyddiad i feithrin perthynas â Sheffield Theatres, sy’n cefnogi prosiectau creadigol ar draws y ddinas. Arweiniodd hyn at blant lleol yn perfformio dawns yn Theatr y Crucible y flwyddyn ganlynol, gyda llawer o deuluoedd Roma, Slofacaidd, Pacistanaidd a Somalïaidd yn ymweld â’r theatr am y tro cyntaf erioed.

Ar ôl cymryd rhan mewn digwyddiad Palasau Hwyl, teimlai 85% o bobl ei fod yn gwneud iddynt deimlo’n falch o ble maent yn byw.[135] Er mwyn cyflawni hyn, mae’n bwysig darganfod beth mae pobl yn ymddiddori ynddo, fel bod digwyddiadau diwylliannol yn aros yn berthnasol. Cyn cynnal digwyddiadau Palasau Hwyl, gosododd bosteri yn llyfrgelloedd Lambeth yn gofyn ‘beth hoffech chi ei wneud neu ei ddysgu?’ a ‘beth allwch chi ei rannu neu ei ddysgu?’, gyda lle i bobl lenwi’r manylion. Rhoddodd hyn fewnwelediad cyfoethog i ddewisiadau’r gymuned.

## Learning points

- Gwnewch ddefnydd o ddigwyddiadau bach neu untro fel catalydd ar gyfer bondio a chysylltiadau parhaus. Yn Whitstable, arweiniodd cyfnewid llyfrau a oedd yn rhan o ddigwyddiad Palasau Hwyl at noson awduron rheolaidd sydd wedi cadw aelodau’r gymuned gyda’i gilydd.
- Canolbwyntiwch ddigwyddiadau ar grŵp targed diffiniedig. Canfu ymchwil Spirit of 2012 er y gallai hyn gyrraedd niferoedd llai, gall fod yn blatfform ar gyfer cyfleoedd newydd. Cynhaliodd Verbal Arts Centre yng Ngogledd Iwerddon brosiect trafod Reading Rooms ar gyfer cyn-droseddwyr 18-30 oed. Ar ôl y prosiect, hyfforddodd 10 o bobl ifanc o’r grŵp fel hwyluswyr i ledaenu’r ymagwedd i ardaloedd newydd.
